# Llais Ogwan

Papur Bro Dyffryn Ogwen

Rhifyn 521 · **Mehefin 2021** · Rhifyn Digidol · Am Ddim

# Rhiannon yw Prif Artist Eisteddfod T

Artist ifanc amryddawn o Sling yw'r Prif Artist yn Eisteddfod T eleni, a hynny am waith serameg uchel-ei-safon sy'n tystio i'w magwraeth yn Nyffryn Ogwen.

Wrth drafod gwaith buddigol Rhiannon Gwyn, meddai beirniad y gystadleuaeth, yr artist Lisa Eurgain Taylor: "Dw i wrth fy modd efo gwaith Rhiannon a'r syniadau tu ôl i'w gwaith...Dw i wir yn gallu teimlo ei chariad hi tuag at Ogledd Cymru ac mae'n cyfleu Eryri yn berffaith drwy ei gwaith."

Yn gyn-ddisgybl Ysgol Llanllechid ac Ysgol Dyffryn Ogwen, graddiodd Rhiannon gyda gradd dosbarth cyntaf o Ysgol Gelf a Dylunio Caerdydd yn 2019. Ers graddio, mae wedi treulio cyfnod ar raglen breswyl i raddedigion ym Mhrifysgol Fetropolitan Caerdydd, gyda'i gwaith a'i dulliau unigryw wedi derbyn sylw ar raglenni radio a theledu cenedlaethol. Erbyn hyn, mae Rhiannon yn ôl ym mro ei mebyd ac yn parhau i gael ei hysbrydoli gyda'r adnodd naturiol sy'n hollbresennol o'i chwmpas, gan ddefnyddio llechi'r tomenni er mwyn creu gwaith sy'n gyfoes ac yn gelfydd.







Mae bellach wedi meistroli'r grefft o 'ail-dwymo' llechi er mwyn eu mowldio'n siapiau a phatrymau unigryw:

"Rwyf wedi darganfod ffyrdd o danio llechi yn yr odyn fel bod y deunydd caled hwn yn mynd yn hawdd i'w drin pan gaiff ei danio i dymheredd digon uchel. Mae'r llechen yn amrywio yn ei hymateb wrth gael ei thanio mewn odyn gan ei bod yn dibynnu ar ei maint, o ba chwarel y mae'n dod a'r priodweddau yn y garreg. Rwy'n gallu ei rheoli trwy siapio a mowldio'r llechen i greu llinellau crwm a thonnog fel y gellir defnyddio'r slabiau o lechi fel silffoedd unigryw."

Ac wrth drafod dylanwad ardal Dyffryn Ogwen ar ei gwaith, meddai Rhiannon:

"Mae mynd am dro wastad 'di bod yn weithgaredd rheolaidd yn ein teulu ni, felly ges i fy magu gyda gwerthfawrogiad o'r fro hon a'r dirwedd o'n hamgylch. Wrth i mi ddechrau astudio celf gwelais fy hun yn troi at y dirwedd adra am ysbrydoliaeth a daeth dylanwad yr ardal a'm magwraeth i'r amlwg."

**Parhau ar dudalen 2**

## Panel Golygyddol

**Derfel Roberts**
(Ffôn 600965)
derfel.roberts@btinternet.com

**Ieuan Wyn**
(Ffôn 600297)
ieuanwyn01@gmail.com

**Lowri Roberts**
(Ffôn 07815 093955)
l.roberts11@btinternet.com

**Neville Hughes**
(Ffôn 600853)
nev_hughes@btinternet.com

**Dewi A Morgan**
(Ffôn 602440)
dewimorgan@live.co.uk

**Trystan Pritchard**
(Ffôn 07402 373444)
trystanrp1@gmail.com

**Walter a Menai Williams**
(Ffôn 601167)
waltermenai@yahoo.co.uk

**Rhodri Llŷr Evans**
(Ffôn 07713 865452)
Rhodri.llyr.evans@gmail.com

**Owain Evans**
(Ffôn 07588 636259)
owain.evans1@gmail.com

**Carwyn Meredydd**
(Ffôn 07867 536102)
carwynian@hotmail.com

**Rhys Llwyd**
(Ffôn 01248 601606)
rmll42@live.co.uk

## Swyddogion

**CADEIRYDD**:
**Dewi A Morgan**, Park Villa, Lôn Newydd Coetmor, Bethesda, Gwynedd LL57 3DT (Ffôn 602440)
dewimorgan@live.co.uk

**TREFNYDD HYSBYSEBION**:
**Neville Hughes**, 14 Pant, Bethesda LL57 3PA (Ffôn 600853)
nev_hughes@btinternet.com

**YSGRIFENNYDD**:
**Gareth Llwyd**, Talgarnedd, 3 Sgwâr Buddug, Bethesda LL57 3AH (Ffôn 601415)
garethllwyd197@btinternet.com

**TRYSORYDD**:
**Godfrey Northam**, 4 Llwyn Bedw, Rachub, Llanllechid LL57 3EZ (Ffôn 600872)
godfreydnortham@hotmail.co.uk

**Y LLAIS DRWY'R POST**:
**Owen G Jones**, 1 Erw Las, Bethesda, Gwynedd LL57 3NN (Ffôn 600184)
post@llaisogwan.com


## Golygyddion

Golygwyd rhifyn y mis hwn gan **Rhodri Llŷr Evans**.
Y golygydd ym mis **Gorffennaf** fydd **Dewi A. Morgan**, Park Villa, Lôn Newydd Coetmor, Bethesda, Gwynedd, LL57 3DT. 01248 602440
dewimorgan@live.co.uk

Pob deunydd i law erbyn **dydd Sadwrn, 26 Mehefin** os gwelwch yn dda.
Ni fydd angen casglu a dosbarthu gan mai rhifyn digidol fydd hwn.
**DALIER SYLW:** NID OES GWARANT Y BYDD UNRHYW DDEUNYDD FYDD YN CYRRAEDD AR ÔL Y DYDDIAD CAU YN CAEL EI GYNNWYS

**Parhad o dudalen 1**

A hithau'n ferch i'r diweddar Brifardd Gwynfor ab Ifor, nid syndod yw deall bod Rhiannon yn artist sy'n pontio disgyblaethau celfyddydol â'i gwaith. Gan weithio o'i stiwdio yn Sling, mae'n nodi nad yw'r 'gwaith creu byth yn stopio', wrth iddi greu deunydd i'w werthu ar ei gwefan ac ymateb i gomisiynau – ond mae'r casgliad mwyaf diweddar o'i gwaith yn un hynod bersonol iddi, sef cyfres o blatiau sydd wedi eu hysbrydoli gan farddoniaeth ei thad: "Roedd Dad hefyd yn caru ei bentref genedigol a'r dirwedd o'i amgylch, sy'n amlwg yn ei waith. Dwi'n cael fy ysbrydoli'n barhaus gan y geiriau y mae o wedi eu gadael ar ei ôl."

Er mwyn gweld rhagor o waith arbennig Rhiannon, ewch i'w gwefan: https://www.rhiannongwyn.com/

Llongyfarchiadau mawr iti ar dy lwyddiant, Rhiannon!



'Yng ngwasgod y mynydd o ddwndwr y lli / dan fotwm y galon mae'n pentra bach ni.




Yn galw plant y Dyffryn i

# HWYL YR HAF

gyda'r
**CLWB BORE SUL**
dan ofal Ysgol Sul Jeriwsalem

**Gemau . Crefftau . Stondinau**

Cyfle i ddod i 'nabod arweinwyr y Clwb Bore Sul
Yn yr ardd o flaen Capel Jeriwsalem
(yn yr ystafell uchaf yn y Capel, sydd â digon o le, os bydd hi'n bwrw glaw)

**Bore Sul, Gorffennaf 4ydd**
**10.00-11.30am**
Am ddim.
Croeso i bawb! Dewch yn llu!


## Rhoddion i'r Llais

**£10.00** Joseph D. Hughes, Ffordd Ffrydlas, Bethesda.
**£5.00** Barbara Jones, Dolhelyg, Talybont.
**£10.00** Er cof am Catherine Mary Thomas, 22 Maes Ogwen, Tregarth, a fu farw yn 60 oed ar 4 Mehefin 1978, ac i gofio am ei phenblwydd ar 17 Mehefin. Oddi wrth ei merch, Llewela O'Brien ym Mangor Uchaf a John Llewelyn a'r plant ym Modedern.

**Diolch yn fawr**

Ariennir yn Rhannol gan Lywodraeth Cymru

CYMRAEG

## Llais Ogwan ar CD

Gellir cael copi trwy gysylltu â **Gwyn** yn swyddfa'r deillion, Bangor (01248 353604). Os gwyddoch am rywun sy'n cael trafferth â'i olwg, ac a hoffai dderbyn copi o'r Llais ar CD bob mis, cysylltwch ag un o'r canlynol:
Gareth Llwyd – 601415
Neville Hughes – 600853

## Archebu trwy'r post

**Gwledydd Prydain** – £22
**Ewrop** – £30
**Gweddill y Byd** – £40
Owen G. Jones, 1 Erw Las, Bethesda, Gwynedd LL57 3NN
post@llaisogwan.com
01248 600184

# Llythyr

**ANNWYL GYFAILL,**
Hoffem dynnu eich sylw at grantiau sydd ar gael gan Elusen Ogwen i grwpiau cymunedol yn Nyffryn Ogwen. Rydym yn eich annog i ymgeisio am gyllid ar gyfer prosiectau all wella safon byw pobl y Dyffryn. Y dyddiad cau cyntaf ar gyfer derbyn ceisiadau yw 30 Mehefin 2021.

Gall yr Elusen gyfrannu at brosiectau cyfalaf a refeniw sydd â'r amcanion isod:

| Amcan | Enghreifftiau |
|---|---|
| Lleihau tlodi tanwydd a chymdeithasol | Addysgu am effeithlonrwydd ynni, deall a dehongli biliau ynni, sbarduno insiwleiddio ac ymarferion arbed ynni |
| Datblygu prosiectau ynni adnewyddadwy | Gosod pwyntiau gwefru cerbydau trydan, gosod offer cynhyrchu trydan ar safleoedd cymunedol |
| Hybu trafnidiaeth gynaliadwy a theithio actif | Prosiectau sy'n annog beicio neu gerdded i'r ysgol neu'r gwaith |
| Arbed ynni | Gosod offer sy'n arbed ynni mewn adeiladau cymunedol, annog busnesau neu gymuned o drigolion i arbed ynni |
| Cysylltu unigolion o bob oed â'r amgylchedd | Prosiectau cadwraeth neu wyddonol |
| Lleihau gwastraff | Prosiectau sydd yn annog ail defnyddio neu ailgylchu neu gompostio |
| Annog unigolion i wirfoddoli mewn prosiectau amgylcheddol yn eu cymunedau | Prosiectau cadwraeth neu wyddonol |
| Gwella ansawdd yr amgylchedd lleol | Mabwysiadu a gwella llecynnau o dir, plannu mewn mannau cyhoeddus, hel sbwriel, plannu coed a llwyni |
| Cynyddu cynhyrchu / prynu cynnyrch bwyd lleol | Datblygu rhandiroedd neu berllannau cymunedol, annog ffyrdd newydd o werthu a dosbarthu cynnyrch lleol |

Mae pedwar dyddiad cau yn flynyddol ar gyfer y gronfa, sef:

- 30 Mehefin 2021
- 30 Medi 2021
- 31 Rhagfyr 2021
- 31 Mawrth 2022

Mae'r dogfennau ymgeisio ar wefan www.ogwen.cymru/cy/prosiectau-cymunedol/elusen-ogwen/ neu cysylltwch â ni ar elusenogwen@gmail.com os hoffech chi sgwrs efo ni yn gyntaf. Peidiwch â bod ofn cysylltu, rydym yn awyddus i glywed gennych chi ac i annog dyfeisgarwch.
Edrychwn ymlaen at dderbyn eich ceisiadau.
Yr eiddoch yn gywir,
**Lowri Williams**, ar ran Elusen Ogwen


**Oes gennych chi ddiddordeb i hysbysebu yn Llais Ogwan?**

**Cysylltwch â Neville Hughes (Ffôn 600853)**

**nev_hughes @btinternet.com**


## Y Cyngor i ymgynghori ar Bwerau Rheoli Cŵn newydd i Wynedd

Mae Cyngor Gwynedd yn awyddus i glywed barn trigolion y sir am Bwerau Rheoli Cŵn newydd ar gyfer y sir.

Fel rhan o'r ymgynghoriad a fydd ar agor o 24 Mai, bydd y Cyngor yn gofyn am farn y cyhoedd ar y ffordd orau i fynd i'r afael â phryderon baw cŵn, ac i ddarganfod barn trigolion ar ardaloedd lle dylid cyfyngu cŵn.

Bydd yr ymgynghoriad hefyd yn gofyn i drigolion am wahardd posib cŵn o rai ardaloedd megis tir ysgol, caeau chwarae, cyfleusterau chwaraeon a chyfyngiadau tymhorol ar rai traethau.

Dywedodd y Cynghorydd Catrin Wager, Aelod Cabinet Cyngor Gwynedd dros Briffyrdd a materion Bwrdeistrefol:

"Mae baw cŵn yn rhywbeth sydd yn achosi pryder i drigolion Gwynedd ac mae'n bwysig ein bod ni fel Cyngor yn gweithredu ar y mater yma. Rydym wedi cynnal amryw o ymgyrchoedd i geisio lleihau'r digwyddiadau o faeddu ar ein strydoedd, ac rydym hefyd wedi bod yn darparu bagiau gwastraff cŵn am ddim i breswylwyr.

"Rwy'n ddiolchgar iawn i'r mwyafrif o berchnogion cŵn yng Ngwynedd, sy'n ofalus iawn ac yn glanhau ar ôl eu hanifeiliaid anwes. Yn anffodus, mae yna rai perchnogion o hyd sy'n gadael baw eu cŵn neu bagiau gwastraff llawn i eraill gael delio efo. Tydi hyn ddim yn dderbyniol, a gellir rhoi dirwyon sylweddol am ymddygiad o'r fath.

"Bydd y Cyngor yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus o 24 Mai ar Bwerau Rheoli Cŵn newydd - ond ni fydd hyn am faw cŵn yn unig. Byddwn hefyd eisiau clywed barn pobl am ardaloedd lle mae cŵn

wedi cael eu cyfyngu neu y dylid eu cyfyngu, megis tir yr ysgol, ardaloedd chwarae plant a thraethau penodol.

"Rwy'n gwybod bod gan bobl deimladau cryf am faw cŵn a chyfyngiadau cŵn, ac rwy'n annog trigolion lleol i rannu'r safbwyntiau hynny gyda ni - os ydych yn berchen ar gi neu beidio – er mwyn helpu ni i sicrhau bod y trefniadau newydd yn cwrdd ag anghenion lleol."

Bydd yr ymgynghoriad cyhoeddus ar agor o ddydd Llun, 24 Mai ac y bydd ar gael ar wefan y Cyngor www.gwynedd.llyw.cymru/ymgynghori - neu, bydd copïau papur ar gael o lyfrgelloedd lleol Gwynedd (oherwydd cyfyngiadau Covid-19, mae mynediad i lyfrgelloedd trwy apwyntiad ar hyn o bryd).

# Y Gerlan

**Caren Brown**, Cilwern,
14 Ffordd Gerlan, Bethesda, LL57 3ST.
(01248 602509 / 07789 916166)
carenelaine@hotmail.com
**Linda Brown**, 1 Gwernydd, Gerlan, Bethesda, LL57 3TY. (01248 601526)

**Penblwydd hapus!**

Penblwydd hapus iawn i Nia O'Marah, Gwernydd, oedd yn dathlu pen-blwydd arbennig y mis yma. Gobeithio y bydd y dathlu'n parhau am weddill y flwyddyn, Nia. Cariad mawr iti gan y teulu i gyd a ffrindiau ymhell ac agos.

Penblwydd hapus hefyd i Dafydd Hedd, Stryd y Ffynnon, sydd wedi dathlu ei ben-blwydd yn 18. Gobeithio dy fod wedi cael hwyl yn dathlu er gwaetha'r cyfnod clo.


**Defib**

Diolch i Gyngor Cymuned Bethesda am drefnu i ni gael defib yn Gerlan. Mae sawl un wedi eu gosod o gwmpas yr ardal a 'da ni'n ddiolchgar iawn am gael rhoi cartref i un y tu allan i'r Caban.

**Rhyddhau EP**

Llongyfarchiadau i Dafydd Hedd hefyd am ryddhau EP – 'Yr Ifanc sy'n Gwneud Dim Byd'.

Mae nifer ohonoch yn adnabod Dafydd fel person ifanc gweithgar iawn yn y Dyffryn sydd yn arbennig o hoff o gerddoriaeth. Mae Dafydd yn ddisgybl 6ed dosbarth ac mae'n hoff iawn o gyfansoddi cerddoriaeth ei hun, trefnu gigs a mwy.




Wedi ei rhyddhau yn gynharach y mis hwn, mae'r EP newydd yn un egnïol dros ben. Mae cyfle hefyd i'w phrynu ar iTunes. Bu Dafydd yn cyfansoddi, crefftio a sgwennu'r EP am dros flwyddyn a hanner a'i recordio dros gyfnod o fis gyda chymorth Sam Durrant yn Stiwdio Un yn Rachub, a gyda chefnogaeth Dan Cutler (cerddor). Mae 5 cân ar yr EP, rhai mwy pync a roc, rhai llawer fwy ymlaciol fel Paent Ar Y Garreg a rhai eraill fwy emosiynol a geiriol fel Colli Ar Fy Hun a Pan Mae Fory'n Dod.



Eglurodd Dafydd: "Mae themâu pendant yn cysylltu'r caneuon rhain: yr angen am gymdeithas decach, fwy gwir, lle nad yw problemau yn cael ei stwffio dan y carped ond yn cael eu delio â nhw. Mae'r syniad o ddifaterwch ymysg yr ifanc wedi bod yn rhywbeth sydd yn codi'i ben o hyd, a gyda'r casgliad hon, dwi'n protestio drwy harmoni er mwyn gwneud y byd yn lle gwell. Wrth gwrs, mae'n anodd gallu dweud pryd alla i gigio a pherfformio'r EP hon yn fyw, ond pan ddaw'r amser, dwi'n bwriadu gwneud taith. Rwyf wedi gweithio yn arbennig o galed arni a byddai'n werth chweil i fwy o bobl wrando arni."

Os hoffech fwy o wybodaeth am yr EP, mae'n bosib cysylltu gyda Dafydd ar dafyddhedd@outlook.com neu dros y ffôn 07922 152890. Gallwch ddarllen mwy amdano ar ei wefan www.dafyddhedd.com.

Bydd yr EP ar werth yn Siop Ogwen a siopau lleol eraill. Pob lwc iti Dafydd - gobeithio y bydd yr EP yn llwyddiant mawr.

**Cydymdeimlo**

Trist iawn oedd clywed y newyddion am farwolaeth Pam Roberts, 29 Ciltrefnus, ar y 15fed o Fai. Roedd Pam yn adnabyddus i nifer o bobl eraill fel Pam Sinclair ond Pamela Audrey Roberts oedd ei henw llawn. Bu fawr Pam yn 84 mlwydd oed a gofalwyd amdani'n dyner gan y teulu i gyd. Gwraig annwyl y diweddar Gwynfor a mam gariadus Judy, Barry, Vaughan, Dylan, Geraint, Nerys, Carys, Dewi a'r diweddar Daisy a Gwynfor. Roedd yn nain a hen nain arbennig iawn ac yn chwaer i Dewi a'r diweddar Thelma a Leigh. Bydd ei ffrindiau a'i theulu yn ei cholli'n fawr a bydd bwlch mawr ar ei hôl yn Ciltrefnus. Cydymdeimlwn yn fawr gyda chi fel teulu. Bydd unrhyw roddion er cof amdani yn cael eu cyflwyno i Ysbyty Plant Alder Hay yn Lerpwl.

**Llongyfarchiadau**

Llongyfarchiadau mawr i Glesni Owen, Gwaen Gwiail, ar ei swydd newydd gyda Boots. Mae Glesni eisoes yn gweithio yn y fferyllfa ym Methesda ond mae newydd gael dyrchafiad i swydd rheolydd yno. Pob lwc iti yn dy rôl newydd, Glesni.

**post@llaisogwan.com**

# Clwb Cyfeillion

**Clwb Cyfeillion Llais Ogwan**

**Gwobrau Ionawr**

£30.00 (171) Gareth Lewis, Pantglas, Bethesda.
£20.00 (48) Cemlyn Jones, Erw Las, Bethesda.
£10.00 (95) Gwyneth Morris, Gwaen Gwiail, Gerlan.
£5.00 (119) Helen Wyn Williams, Llwyn Bleddyn, Rachub.

**Gwobrau Chwefror**

£30.00 (86) Rosemary Williams, Tregarth.
£20.00 (184) Enid Roberts, Tregarth.
£10.00 (11) R. Orina Pritchard, Rhos y Nant, Bethesda.
£5.00 (114) Gwen Aaron, Rhiwlas.

**Gwobrau Mawrth**

£30.00 (22) Don Hughes, Halifax.
£20.00 (165) Meirwen Williams, Star, Gaerwen.
£10.00 (166) Rhodri Williams, Star, Gaerwen,
£5.00 (174) Jo. M. Oliver, Ffordd Bangor, Bethesda.

**Gwobrau Ebrill**

£30.00 (124) Gwenda Davies, Llanfairpwll.
£20.00 (184) Enid Roberts, Tregarth.
£10.00 (6) Joseph D. Hughes, Ffordd Ffrydlas, Bethesda.
£5.00 (62) Iona Wyn Jones, Pentref Llandygai.

**Gwobrau Mai**

£30.00 (87) Rhian Owen, Bro Syr Ifor, Tregarth.
£20.00 (52) Barbara Jones, Dolhelyg, Talybont.
£10.00 (30) Alan Puw, Cefn y Bryn, Bethesda.
£5.00 (31) Alwenna Puw, Cefn y Bryn, Bethesda.

**Gwobrau Mehefin**

£30.00 (123) Dilys Jones, Cefn y Bryn, Bethesda.
£20.00 (115) Griffith C. Morris, Rhos y Nant, Bethesda.
£10.00 (79) Mair A. Griffiths, Waen Wen.
£5.00 (87) Rhian Owen, Bro Syr Ifor, Tregarth.

# Rachub a Llanllechid

**Emlyn Williams**, Pont Llan, Llanllechid, Bangor, LL57 3LE
(01248 605582 a 07887624459)
henbarc13@gmail.com

Mae'r criw o archaeolegwyr sydd wedi bod yn brysur yng Nghae Rhosydd (dros y ffordd i Faes Bleddyn) wedi darganfod cwt pren crwn o'r oes haearn a waliau cerrig adeiladau fferm, ond nid y tŷ fferm ei hun. A yw waliau'r tŷ fferm o dan tai Maes Bleddyn efallai?

Mae Punch Taverns yn chwilio am rywun i fuddsoddi arian yn Y Dderwen Frenhinol (Royal Oak) ac y mae'r ddau sydd wedi bod yn gweithio yno yn awyddus i barhau efo'u gwaith. Dymunwn yn dda i'r ddau.

Mae'r broblem o barcio ceir wrth Ysgol Llanllechid wedi lleihau ar ô l i'r pennaeth drefnu gollwng a derbyn y dosbarthiadau ar adegau gwahanol.

Dymunwn yn dda i Keilly Tugwell Williams (Lôn Groes) sy'n disgwyl (neu wedi cael) triniaeth yn Ysbyty Walton. Dymunwn yn dda hefyd i Rita Harris (Bryn Bella) ar ôl llawdriniaeth diweddar yn yr ysbyty. Hefyd dymunwn wellhad buan i bobl o'r ardal (fel Fiona Sherlock, Tŷ Capel Carmel) sy'n dioddef o sgil effeithiau Covid.

Croesawn y ffaith bod Cyngor Bethesda wedi trefnu cael lloches bws yn Sgwâr Rachub, wedi pwysau diflino gan gynghorwyr cymunedol Llafur, Ward Rachub (Pearl Evans, Godfrey Northam a Michael Williams).

Mae Cyngor Llanllechid a Chyngor Bethesda wedi protestio am fod y cynllun i gael 15 o dai ar rent, a phymtheg o dai ar werth yng Nghae Rhosydd wedi newid i 30 o dai ar rent yn unig, h.y. bod holl dai newydd yr ardal (Lôn Bach Odro, safle'r clwb ger y ganolfan feddygol, Cae Rhosydd a safle'r gasomedr) i fod yn dai ar rent.

Gresyn bod rhai pobl yn parcio eu cerbydau ar linellau melyn neu ar y palmant ger y fainc gyhoeddus ym mhen uchaf Bryn Pistyll pan fo llefydd gwag islaw.

**post@llaisogwan.com**

# Llandygái

**Iona Wyn Jones**, Dyma Fo, 16 Pentref, Llandygái, Bangor LL57 4HU (01248 354280)

## Eglwys Sant Tegai, Llandygai

**Cymdogion Chwareus**

A welsoch chi hanes ein cymdogion, sef y wiwerod barus? Mae stori'r wiwerod yn cnoi plwm y to ac yn creu miloedd o bunnoedd o ddifrod i adeilad yr eglwys wedi lledu ar draws Cymru. Cafodd ein Warden y Ficer sioc un pnawn o Fai pan ddaeth galwad o BBC Cymru i ofyn am gefndir i'r stori. Ni wyddom pwy oedd ffynhonnell yr hanes ond achosodd gryn siarad (a hwyl) ar y radio cenedlaethol. Yn anffodus nid oedd y difrod yn destun sbort i'r rhai sy'n ymdrechu i godi arian i drwsio'r to!

**Sulgwyn 2021**

Mae ein heglwys yn parhau ar gau oherwydd y gwaith Atgyweirio ond roedd aelodau o gynulleidfa St Tegai yn falch o gael derbyn gwahoddiad i fynychu gwasanaeth Sulgwyn Eglwys Glanogwen. Y Parchedig Paul Jones oedd yn arwain y gwasanaeth a chôr bychan o ferched yr eglwys yn canu'r emynau. Profiad bendithiol iawn, diolch yn fawr Glanogwen! Roedd digon o le i sicrhau pellter cymdeithasol. Fel St Tegai, mae Eglwys Glanogwen yn gwynebu gwaith atgyweirio sylweddol.



Ffenestr liw â St Tegai arni yn Eglwys Llandygai

**Diwrnod Rhodd St Tegai 2021**

Ni chafwyd cyfle i ddathlu Diwrnod Rhodd St Tegai ym mis Mehefin 2020 oherwydd yr argyfwng iechyd. Eleni bydd swyddogion yr eglwys yn ddiolchgar iawn cael unrhyw gyfraniad ar gyfer Cronfa Atgyweirio Rhan 2. Rydym eisoes wedi gwario £60,000 ar waith Rhan 1, sef y to a'r waliau allanol. Y Sul cyntaf ym mis Mehefin yw'r dyddiad arferol i ni ddathlu bywyd a gwasanaeth un o seintiau cynnar Cymru. Mab Ithel Hael, tywysog o Lydaw yn y 6ed ganrif, oedd Tegai, yn un o deulu o seintiau Cymru yn cynnwys ei chwaer Santes Llechid, nawddsant Eglwys Llanllechid. Sefydlwyd ei eglwys gyntaf (ei gell) ble mae stâd ddiwydiannol Llandygai heddiw ond mae'r eglwys bresennol yn dyddio o'r 12fed ganrif. Os ydych yn dymuno cyfrannu i'n Diwrnod Rhodd 2021, gallwch yrru eich siec, yn daladwy i Eglwys Llandegai, neu arian parod mewn amlenni trwy'r blwch postio i'r swyddogion Ann E. Williams (Warden y Ficer), Llwyn Coed, 9 Llwyn Bleddyn, Llanllechid, Bangor, Gwynedd. LL57 3EF (Ffôn 01248 600719)

Nerys Jones (Ysgrifennydd yr Eglwys a Sacristan), 2 Bryn, Pentre Llandygai, Bangor, Gwynedd. LL57 4LD (Ffôn 01248 354369)

Edmond Douglas Pennant (Trysorydd a Warden y Bobl), Lodge Drws Melyn, Pentre Llandygai, Bangor, Gwynedd LL57 4HU.

Os gwelwch yn dda, a wnewch chi ysgrifennu enw llawn, cyfeiriad ac ebost ar eich rhodd: mae'n bosib hawlio Rhodd Cymorth am gyfraniadau cymwys.

Diolch i bawb o'r ardal sydd wedi dangos diddordeb neu wedi cyfrannu eisoes i'n hachos.

**Gwasanaethau Sant Tegai Llandygai yn ystod y gwaith Atgyweirio**

Yn ystod cyfnod y coronafirws, mae aelodau'r gynulleidfa wedi cadw mewn cysylltiad clos drwy ebost ac wedi ymuno pob dydd Sul am 10.15 mewn cydweddi ddistaw yn y tŷ gydag eglwysi eraill Bro Ogwen. Mae Warden y Ficer yn gyrru deunydd addoli yr Archddiacon yn wythnosol drwy ebost. Erys Eglwys St Tegai ar gau hyd nes bydd y gwaith Atgyweirio Rhan 1 wedi ei gwblhau. Am fanylion am wasanaethau yn eglwysi Bro Ogwen, rhaid cysylltu gydag wardeniaid Glanogwen, Pentir, Tregarth, Mynydd Llandegai a St Cross Talybont.

Diolch i'r Archddiacon Mary Stallard am yrru'r myfyrdodau wythnosol ar-lein i bob eglwys ym Mro Ogwen. Cynhelir gwasanaeth Gosber trwy gyfrwng y Gymraeg ar lein bob nos Sul; gweler gwefan yr Esgobaeth am yr holl ddarpariaeth addoli.

**Manylion Cyswllt**

Tra mae eglwysi Bro Ogwen yn disgwyl am apwyntiad Ficer newydd, rhaid cysylltu â'r Archddiacon, Yr Hybarch Mary Stallard, Llandudno 01492 876624 ynglŷn ag unrhyw fater yn ymwneud â'r eglwys.

# Bethesda

**Mary Jones**, maryeds@hotmail.co.uk
(07443 047642)
**Joe Hughes**, Awel y Nant, Ffordd Ffrydlas,
Bethesda (601902)

## Eglwys Crist, Glanogwen

**Gwasanaethau**

Braf oedd cael croesawu cynulleidfa unwaith eto i fod gyda'n gilydd mewn addoliad. Rydym wedi cyfarfod bellach ddwywaith yn ystod Mai, a byddwn yn cael ein gwasanaethau arferol ar fore Mercher o hyn allan am 10.30, a chyfle i rannu paned a sgwrs. Bydd gwasanaeth Cymun acw ar yr 20fed o Fehefin ac fel arfer mae croeso cynnes i bawb i ymuno.

Cafwyd cytundeb gan yr aelodau bod Eglwys Crist werth ei hatgyweirio, ac felly byddwn yn rhoi cynlluniau ar droed yn fuan i godi arian at hynny, a byddwn yn datgelu manylion dros y misoedd nesaf.

Diolch o galon i bawb o'n aelodau sydd yn dal i gyfrannu'n gyson, mae pob cyfraniad yn wirioneddol werthfawr. Diolch yn fawr iawn.

Fel arfer, anfonwn ein cofion cynhesaf at bawb yn yr ardal sydd yn unig neu'n sal yn eu cartref neu'r ysbyty, gan ddymuno gwellhad buan a chysur i bawb.

**Manylion Cyswllt**

Tra mae eglwysi Bro Ogwen yn disgwyl am apwyntiad Ficer newydd, rhaid cysylltu â'r Archddiacon, Yr Hybarch Mary Stallard, Llandudno 01492 876624 ynglyn ag unrhyw fater yn ymwneud â'r eglwys.

Cofiwch bod Barbara (600530) a Glenys (600371) ar ben arall y ffon os am gael sgwrs.

**Oes gennych chi ddiddordeb i hysbysebu yn Llais Ogwan?**

**Cysylltwch â Neville Hughes (Ffôn 600853)**

**nev_hughes@btinternet.com**

## Yr Eglwys Unedig

**Ailagor y Capel**

O'r diwedd, a chyda llawenydd mawr, 'rydym yn cael cynnal gwasanaethau yn y Capel unwaith eto. Wedi dros flwyddyn o fod â'r drysau ar gau, 'roedd yn hyfryd cael croesawu'r gynulleidfa'n ôl i'r adeilad. Gwnaed hyn am y tro cyntaf nos Sul, Mai 9fed – Sul Cymorth Cristnogol – gyda gwasanaeth cymunedol o dan arweiniad Y Parchedig John Pritchard, a braf oedd gweld cynulleidfa deilwng wedi ymgynnull, a chael cyfarfod â ffrindiau nad oeddym wedi'u gweld ers amser maith. Braf hefyd oedd cael cwmni'r rhai oedd yn methu bod yn bresennol ar y ffôn – diolch i dechnoleg fodern! Cawsom wasanaeth amserol ar y ffôn y Sul canlynol gan Mrs. Lowri Roberts, ac yna oedfaon bendithiol yn y capel o dan arweiniad Y Parchedig Iwan Ll. Jones, Mrs. Eirlys Williams, Y Parchedig Megan Williams, a Mr. Richard Morris Jones – a'r rheiny i gyd ar gael i'w clywed o'r cartrefi. Diolch o galon i bob un ohonynt am ein cynorthwyo i gadw fflam y ffydd yn olau. Gweler isod y trefniadau ar gyfer y Suliau sydd i ddod.

**Yr Ysgol Sul**

Daw newydd da o gyfeiriad yr Ysgol Sul hefyd, gan fod yr athrawon yn brysur yn paratoi ar gyfer croesawu'r plant yn ôl yn fuan – diolch iddynt am eu brwdfrydedd, a'u hymroddiad i feithrin y gwerthoedd gorau yn yr ifanc. Gobeithiwn weld criw da yn dod atom cyn bo hir, ac edrychwn ymlaen at weld y festri fach a'r ystafelloedd dosbarth yn llawn bwrlwm unwaith eto.

**Yr Ardd a'r Llwybrau**

Mae'r gwair wedi'i dorri, mae'r llwybrau wedi'u glanhau erbyn hyn, ac maent yn edrych yn hyfryd. Diolch i Gareth ac i Dylan am eu gwaith rhagorol, ac i'r aelodau sydd yn gofalu'n gyson am yr adeilad.

**Pen-blwydd**

Llongyfarchiadau, a phob dymuniad da, i Mrs. Olwen Williams ar ddathlu ohoni ben-blwydd arbennig ar Fai 29. Ymlaen i'r degawd nesaf, Olwen!

**Arfbais Douglas Arms**
Cwrw Casgen - Gardd Gwrw

ORIAU AGOR
Llun a Mawrth - wedi cau
Mercher – Gwener 18:00 – 23:00
Sadwrn 15:30 – 00:00
Sul 13:00 – 15:00 a 20:00 – 23:00

01248 602537



**Cofion**

Anfonwn ein cofion cynhesaf at y rhai sydd yn llesg, neu'n fregus, gan ddeisyfu y daw misoedd yr haf â chysur a gobaith iddynt.

**Gweddi**

Dyma emyn hyfryd o waith W. Rhys Nicholas:

Tyrd atom ni, O Grëwr pob goleuni,
Tro di ein nos yn ddydd,
Pâr i ni weld holl lwybrau'r daith yn gloywi
Dan lewyrch gras a ffydd.

Tyrd atom ni, O Luniwr pob rhyw harddwch,
Rho inni'r doniau glân;
Tyn ni yn ôl i afael dy hyfrydwch
Lle mae'r dragwyddol gân.

Tyrd atom ni, Arweinydd pererinion,
Dwg ni i ffordd llesâd;
Tydi dy hun sy'n tywys drwy'r treialon,
O derbyn ein mawrhad.

Tyrd atom ni, O Dad ein Harglwydd Iesu,
I'n harwain ato ef;
Canmolwn fyth yr hwn sydd yn gwaredu,
Bendigaid Fab y nef.

**Cyhoeddiadau'r Sul – pob un yn y Capel ac ar y ffôn:**

Mehefin 20: Y Parchedig Anna Jane Evans (5)
Mehefin 27:Y Parchedig Pryderi Llwyd Jones (10)
Gorffennaf 4: Y Parchedig Cledwyn Williams (10)
Gorffennaf 11: Mr. Dennis Davies (10)
Gorffennaf 18: Y Parchedig Ddr. Elwyn Richards (5)

Dyma'r rhifau ffôn eto:
Deialu: 03330 164 757
Rhif Ystafell: 110 44570#
Rhif Pin: 4414#
Croeso cynnes i bob un ohonoch!

**Llysgenhadon Ifanc LeCHi**

Mae Cian Iolen Rhys yn aelod o'r grŵp Llysgenhadon Ifanc sydd yn rhan o broject LleCHI. Bwriad y grŵp ydy dod a phobl ifanc ardaloedd llechi gogledd Cymru at ei gilydd ac ar gyfer cefnogi cais Treftadaeth Byd yr ardaloedd llechi.

Bu i Cian gymryd rhan mewn trafodaeth ar lein ynglŷn â dehongli hanes caethwasiaeth. Roedd hyn yn ganlyniad i gyhoeddi llyfr Angharad Tomos, *Y Castell Siwgr*.

## Gair neu ddau - John Pritchard

# Proffwydo

Fedraf fi ddim honni mod i'n gwbl gywir. Noswyl cyhoeddi carfan bêl droed Cymru ar gyfer yr Ewros mi fentrais ddweud pa chwaraewyr a gâi eu dewis. Roedd 24 o'r enwau'n gywir gennyf a 2 yn anghywir. Roeddwn i wedi cynnwys Tom Lawrence a Josh Sheehan, ond Dylan Levitt a Rubin Colwell a ddewiswyd yn y diwedd. Mi fedrwn ddadlau y bu bron i mi gynnwys Levitt yn lle Lawrence, ond waeth heb â gwneud hynny gan fod y dystiolaeth yno ar ddu a gwyn i bawb a ddarllenodd *Gronyn* fore'r cyhoeddiad.

Mae 24 allan o 26 yn eithaf da, ond mae'n debyg fod pawb a geisiodd ddyfalu'r garfan wedi rhestru cymaint â hynny o enwau cywir gan mai cymharol ychydig o chwaraewyr sydd ar gael i Gymru. Pwy allasai ragweld rai wythnosau'n ôl y byddai chwaraewr 19 mlwydd oed o'r enw Rubin Colwell wedi ei gynnwys yn y garfan? Roedd angen gwell proffwyd na mi i enwi'r garfan gyfan yn gywir. Felly, llongyfarchiadau i bawb ohonoch a lwyddodd i wneud hynny.

Nid pethau a ddigwyddai drannoeth oedd proffwydi'r Hen Destament yn eu rhagweld, ond pethau a ddigwyddai ymhen canrifoedd. Mor rhyfeddol felly oedd eu datganiadau am Iesu o Nasareth, y Meseia a ddeuai yn Arglwydd a Gwaredwr.

Ac mor rhyfeddol hefyd ddatganiadau Iesu amdano'i hun. Proffwydodd y câi ei ddal a'i draddodi i'w groeshoelio. Proffwydodd y byddai'n marw ac yn atgyfodi, yn esgyn i'r nefoedd ac yn anfon yr Ysbryd Glân at ei ddisgyblion. A digwyddodd hyn oll yn union fel y dywedodd. Ond nid dyna ddiwedd y proffwydoliaethau amdano. Meddai'r angylion ar Fynydd yr Olewydd wedi ei Esgyniad, 'Bydd yr Iesu hwn, sydd wedi ei gymryd i fyny oddi wrthych i'r nef, yn dod yn yr un modd ag y gwelsoch ef yn mynd i'r nef' (Actau 1:11). Heb ei chyflawni eto y mae'r broffwydoliaeth honno. Ond y mae mor sicr o gael ei chyflawni ag unrhyw beth a ragddywedwyd gan broffwydi'r Hen Destament neu gan Iesu Grist ei hun gan mai cyhoeddi neges Duw a wnâi'r angylion, fel y gwnâi'r proffwydi ac fel y gwnâi Crist ei hun.

Ar y cyfan, tawedog yw Cristnogion ynglŷn â'r broffwydoliaeth hon am Ailddyfodiad Iesu Grist. Yn amlwg, mae'n haws sôn am y proffwydoliaethau sydd eisoes wedi eu cyflawni. Rhwydd iawn yw cyfeirio at yr hyn a ddywedodd Eseia a Micha ac eraill am Iesu a'r hyn a ddywedodd ef am ei farwolaeth a'i atgyfodiad, a ninnau'n gwybod fod y cyfan wedi dod yn wir. Ond heb ddigwydd eto y mae'r Ailddyfodiad, ac yn lle cofleidio proffwydoliaethau ac addewidion y Testament Newydd mae cynifer ohonom wedi eu hanwybyddu a'u hamau gan roi'r argraff mai penboethiaid a sectau dieithr sy'n credu y bydd Iesu Grist yn dychwelyd ryw ddydd. Un rheswm dros wneud hynny yw bod yna ddirgelwch ynglŷn â'r holl fater, ac nad yw'r Beibl wedi datguddio digon i'n galluogi i ddweud popeth amdano. Ond y mae'r hyn a ddatguddiwyd (yn 1 Thesaloniaid 4:13-18 er enghraifft) i'w dderbyn a'i gredu.

## Calendr Llais Ogwan 2022

Lluniau ar gyfer Calendr 2022 i mewn cyn **31 GORFFENNAF 2021**, os gwelwch yn dda, er mwyn rhoi digon o amser i gynhyrchu'r calendr. Bydd unrhyw lun o ardal Dyffryn Ogwen (gan gynnwys y Carneddau a'r Glyderau) yn cael ei ystyried.

**Lluniau fformat tirlun, os gwelwch yn dda**

*Cofiwch :*

- *nodi lle y cymerwyd y llun*
- *rhoi teitl i'r llun*
- *cynnwys eich cyfeiriad a'ch enw*



Anfonwch eich llun(iau) trwy ebost at: calendr2022@outlook.com

**Bydd y calendr ar werth ym mis Hydref – tybed fydd eich llun chi ynddo fo?**

Ogwen
Adferiad Corfforol
Physical Rehabilitation
Proffesiynol, diogel a chyfrinachol
LLEDDFU POEN Cefn, cyhyrau, esgyrn, cymalau, a thensiwn cur pen
Eli Lichtenstein
07743373895 Ogwen.Physical.Rehab@gmail.com

JR SGAFFALDIAU Cyf. SCAFFOLDING Ltd. JR
YR IARD, FFORDD STESION, BETHESDA, GWYNEDD LL57 3NE
ebost: sales@jrscaffolding.co.uk
Ffôn/Ffacs:
01248 601754
07770 568743 (symudol)
CITB

MODURON PANDY Cyf.
MOT Diesel a Chatalydd
Atgyweirio MOT
Gwasanaethu Cerbydau
Cydbwyso Teiars
Batris
Tracio
01248 600619
moduronpandy@yahoo.com
www.moduronpandymotors.co.uk
Tregarth, Bangor, Gwynedd LL57 4AY
UNIPART CAR CARE CENTRE

## Ysgol Pen Y Bryn

**PC Owain Edwards**
Yn ddiweddar, mae pob dosbarth wedi cael sesiynau rhithwir gyda PC Owain Edwards. Cafwyd weithdai am ddiogelwch y we, cyffuriau ac alcohol ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mwynhaodd y plant y sesiynau a dysgwyd llawer. Diolch PC Owain Edwards ac edrychwn ymlaen at eich cael yn ol ym Mhen-y-bryn.

**Dathlu Cymru!**
Bu'r ysgol gyfan yn dathlu Y 3C (Cymru, Cymry, Cymraeg) yn ddiweddar gydag ystod o weithgareddau. Cafodd blant blwyddyn 5 a 6 sesiwn rithwir gydag Elin Fflur ble cawsant gyfle i'w holi am beth mae Cymru a Chymreictod yn eu golygu iddi hi. Roedd yn sgwrs hynod ddifyr ac roedd y plant a'r staff wedi mwynhau'n arw! Bu plant blwyddyn 5 a 6 yn creu llyfrau ar gyfer plant blwyddyn 3 a 4 ynglŷn â hanes Llywelyn Ein Llyw Olaf. Bu rhai'n defnyddio yr ap Book Creator i greu llyfryn digidol. Yn ogystal â hyn, bu'r plant yn creu campweithiau celf o'r anthem genedlaethol. Hefyd, cyfansoddodd dosbarth Elidir gân i gyd-fynd â'r digwyddiad. Bu Glyder Fach yn mwynhau chwarae gemau bwrdd fel Monopoly yn y Gymraeg. Perfformiodd yr holl ysgol ddawns enwog Tiktok er mwyn dangos fod modd mwynhau popeth yn y Gymraeg. Pinacl yr wythnos oedd bore o hwyl yn y Neuadd, ble roedd llu o ddanteithion a baratowyd gan y plant, gemau am Gymru, disco Cymraeg ac ati. Cawsom lawer o hwyl, a chafodd bawb wythnos i'w chofio.

**Ambiwlans Awyr**
Fel rhan o'n gwaith ar elusennau, penderfynodd y plant eu bod am godi arian at Ambiwlans Awyr Cymru. Rydym ar hyn o bryd yng nghanol cerdded 16 milltir fel rhan o'r ymgyrch Cerdded Cymru 2021. Edrychwn ymlaen at groesawu aelod o'r Ambiwlns Awyr yma i sgwrsio gyda'r plant ar ôl gwyliau hanner tynor, ac i dderbyn siec gennym.

**Gymnasteg**
Dros yr hanner tymor hwn, mae pob dosbarth wedi mwynhau sesiynau gymnasteg wythnosol gan Sophie o Dreigiau'r Dyffryn. Mae'r plant wedi dysgu amryw o symudiadau a sgiliau. I goroni'r cyfan, roedd pawb yn creu dilyniant o siapiau a symudiadau ac yn perfformio i weddill y dosbarth. Braf oedd gweld mwynhad y plant yn ystod eu perfformiadau. Diolch yn fawr i Sophie am ei gwaith caled.

**Criced**
Mae plant blwyddyn 4-6 wedi bod yn cael gwersi criced gan Steve o Criced Cymru ac mae'r sesiynau wedi bod yn llwyddiant ysgubol! Mae'r plant wedi mwynhau'n arw ac wedi dysgu llawer o sgiliau newydd. Diolch fawr i Steve am wersi diddorol, llawn hwyl!

**Beicio a dioglewch y ffordd**
Ar 25 Mai, daeth Paula Owen, Swyddog Diogelwch y Ffordd Cyngor Gwynedd i roi gwers am feicio diogel i blant blwyddyn 6. Dysgodd y plant sut i feicio'n ddiogel a phwysigrwydd gwisgo helmed. Rydym yn gobeithio bydd y plant yn defnyddio'r hyn ddysgon nhw pob tro maent allan ar eu beiciau.

## Plaid Lafur Dyffryn Ogwen

Cynhaliwyd cyfarfod o Bwyllgor Gwaith Plaid Lafur Arfon ar ddechrau'r mis yn rhithiol, gyda rhai aelodau o'r gangen yn bresennol. Diolchwyd i'r aelodau a weithiodd yn ystod yr ymgyrch etholiadol (e.e. un aelod yn gwneud dros fil o alwadau ffôn) ac atgoffwyd y cyfarfod bod etholiadau sirol a lleol y flwyddyn nesaf.

Derbynwyd adroddiadau gan y swyddogion, gyda chyfle i ofyn cwestiynau a mynegi barn. Cyhoeddwyd y byddai'r cyfarfod (pob aelod) nesaf ar Fehefin y 9fed a'r cyfarfod blynyddol ar Orffennaf y 14eg.

Cynhaliwyd cyfarfod cangen rhithiol yng nghanol y mis i dderbyn adroddiadau gan y swyddogion, am Lywodraeth Cymru (e.e. y pump addewid yn yr etholiad a'r cynllun i adeiladu ugain mil o dai fforddiadwy ar rent dros y bum mlynedd nesaf), Cyngor Gwynedd (e.e. y penderfyniad i annog cyflwyno incwm sylfaenol a'r bwriad i ddefnyddio'r premiwm ar dreth cyngor ail gartrefi i adeiladu 1500 o dai fforddiadwy yn y pum mlynedd nesaf) a Chyngor Bethesda (e.e. caniatâd cynllunio i adeiladu byngalos yr henoed dros y ffordd i Fodurdy Angor a'r bwriad i osod diffibrilwyr yn Rachub a Gerlan).

Penderfynwyd cynnal y daith gerdded flynyddol cyn gwyliau'r Haf ac i drafod "Perchnogaeth Cyhoeddus" ar ôl y cyfarfod blynyddol.

## 'Does unman yn debyg i gartref'

'Does unman yn debyg i gartref', sef, yn ôl *Geiriadur Prifysgol Cymru, 'Y man lle bo dyn a'i deulu yn arfer byw, trigfan, preswylfa'.* Dros gyfnod y pandemig, yr ydym wedi treulio mwy o amser nag arfer yn ein cartrefi wrth geisio gwneud ein rhan i rwystro lledaeniad y firws Covid-19. Fel arfer, ein cartref yw'r lle yr ydym yn dychwelyd iddo i ymlacio ar ôl diwrnod o waith, ond oherwydd y gwaharddiadau, mae ein cartrefi yn awr hefyd yn weithle, gyda nifer ohonom wedi creu swyddfa fach ar fwrdd y gegin, neu yng nghornel ystafell arall. Tipyn o newid byd, gyda'r llinellau rhwng gwaith a chartref wedi pylu. Serch hyn, ein cartrefi yw ein noddfa (*lle sy'n rhoddi cysgod neu amddiffyniad*), ac maent o bob maint a chynllun.

Efallai mai maenordy (*tŷ arglwydd y faenor*), plas, bwthyn, byngalo, hendy (*hen dŷ neu blasty*) fflat, neu hyd yn oed *tŷ â tho o gawn neu wellt crin*, sef crindy, yw eich trigias (*trigfan, preswylfa*). Ond gobeithio bod modd i chi fudo (*symud tŷ*) os mai briwdy (*tŷ drylliedig*), cwthwal (*hofel*), lluest (*trigfan dros dro wedi ei chodi ar frys*), magwyren (*adfail*) neu furddun (*adeilad wedi mynd a'i ben iddo*) yw eich edrydd (*cartref*). Mae pawb yn haeddu adlam (*trigfan sefydlog*), petai'n faesty (*tŷ yn y wlad*), neu ddinasty (*tŷ yn y dref*), ac os ydych am godi tŷ newydd, gwnewch yn siŵr nad yw'n hogl (*adeilad chwithig ei gynllun)* nag yn dŷ trafaelus (*a llawer o waith cerdded ynddo)*, a bod iddo ddrws ffrynt pwrpasol, nid berddor (*drws allanol isel)*. Bydd angen digon o le tan y gronglwyd (*yn y tŷ*) ar gyfer pawb sydd am gytya (*cyd-fyw*) ynddo - fyddai'n annifyr gorfod didyo (*troi allan o dŷ*) aelod o'r teulu!

Gobeithio eich bod wedi eich difyrru gan yr enwau llai adnabyddus, ac os ydych am ddarganfod rhagor amdanynt, cymerwch olwg yn y Geiriadur, naill ai drwy bori yn y cyfrolau print neu yn y Geiriadur Ar Lein - ewch i: http://geiriadur.ac.uk/gpc/gpc.html.

Os ydych yn gwybod am enwau diddorol eraill yn ymwneud â'r cartref, rhowch wybod i ni os gwelwch yn dda. Medrwch gysylltu â ni drwy ein gwefan, ar e-bost (gpc@geiriadur.ac.uk), neu drwy ysgrifennu i'r cyfeiriad canlynol:

*Geiriadur Prifysgol Cymru, Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3HH*

# Pwy Sy'n Cofio Ddoe?

© Dr J. Elwyn Hughes



Wrth droi'n ôl at flynyddoedd cyntaf dyddiaduron David D. Evans (Dafydd Ifans, Glanrafon, Gerlan), cawn un cofnod a fyddai wedi bod o ddiddordeb i drigolion Dyffryn Ogwen er iddo gyfeirio at ddigwyddiad ym Mangor. Ddydd Iau, Mai 15, 1896, cofnodir: 'Agor Pier newydd Bangor gan Lord Penrhyn'. Byddai'n ddiddorol darllen adroddiadau am y 'seremoni' honno ym mhapurau-newydd y cyfnod, gyda'r gobaith o gael hyd i gyfeiriad at bresenoldeb rhai o chwarelwyr Dyffryn Ogwen ar yr achlysur pan oedd eu cyflogwr amhoblogaidd (George Sholto Douglas Pennant) yn ganolbwynt sylw pawb.

Dri mis yn ddiweddarach, darllenwn gofnod arall gan DDE ar Fedi 9, 1896: 'Dechreuad y sefyll allan yn Chwarel y Penrhyn'. Casglwn fod crochan o anghydfod a thrafferthion wedi bod yn ffrwtian ers tro a phrin y byddai rhai o weision anfodlon y Lord wedi mynd i'w weld yn agor y pier ym Mangor a gwrando arno'n cyflwyno'i anerchiad.

Rhwng Ionawr 16 ac Awst 21, 1897, darllenwn bum cofnod yn nodi: 'Cyfarfod Mawr chwarelwyr ym Methesda' ac yna, ddydd Sadwrn, Awst 21, 'Cyfarfod Mawr o'r chwarelwyr. Gwneud y Cytundeb i ddechrau gweithio' ac yna, ar Fedi 1, ceir 'Dechrau gweithio yn y chwarel ar ôl bod allan am 11 mis'. Roedd chwarelwyr Dyffryn Ogwen a'u teuluoedd wedi dioddef bron i flwyddyn o gyni a thlodi, nad oedd ond rhagflas o'r hyn oedd yn eu haros ymhen rhyw dri mis wedyn, pan fu 'sefyll allan' a arweiniodd at Streic 1900-1903, y streic hwyaf yn hanes diwydiannol gwledydd Ynys Prydain.

Gan fod cymaint wedi'i ddweud a'i ysgrifennu am y Streic Fawr, nid oes angen i mi ddweud mwy yn y fan hon. Ond mae'n werth nodi, yn ôl DDE, fod y Mudiad Dirwest fel pe bai wedi bod yn ei anterth yn yr ardal ychydig wedi i'r Streic un-mis-ar-ddeg ddod i ben ym Medi 1897. Yn ystod y flwyddyn rhwng Tachwedd 21, 1897, a Rhagfyr 12, 1898, cynhaliwyd 27 o gyfarfodydd dirwestol, i gyd ar ddyddiau Sul, mewn gwahanol gapeli ym Methesda a'r cyffiniau. Mae DDE yn cofnodi dyddiad a lleoliad pob cyfarfod, sef y capeli a ganlyn; Bethesda (x2), Bethania (x3), Brynteg (x2), Carneddi (x3), Gerlan (x2), Jerusalem (x2), Salem (Carneddi) (x2), Siloam (x3), Treflys (x3), Tabernacl (x3), Ysgoldy Coetmor (x2). Nid sôn am gyfarfodydd dirwestol yn yr un eglwys yn y dalgylch. Ys gwn i faint o oedolion fyddai wedi bod yn bresennol yn y cyfarfodydd hynny a faint, tybed, fyddai mewn cyfarfod o'r fath pe câi ei gynnal heddiw yng Nghapel Jerusalem, yr unig gapel o'r capeli uchod sydd wedi goroesi!

## Pentir

**Cynrig a Carys Hughes**, Rallt Uchaf, Pentir, LL57 4YB
(01248 601318) carys16@hotmail.com

**Tafarn y Faenol**
Cafwyd newyddion calonogol ynglŷn ag ail agor y dafarn. Mae gwaith adnewyddu'r adeilad yn cymryd lle ar hyn o bryd a'r gobaith yw bydd y drysau'n ail agor erbyn cyhoeddi'r rhifyn nesaf.

**Blodau gwyllt**
Mae Cyngor Cymuned Pentir wedi dynodi rhan o'r tir o flaen Rhes Hen Gapel, Rhyd-y-Groes fel man i dyfu blodau gwyllt. Plannwyd yr ardal ddiwedd mis Mai ac edrychir ymlaen at weld yr amrywiaeth o flodau ynghyd â'r bywyd gwyllt maent yn ei ddenu.

**Goleuadau stryd**
Mae goleuadau stryd yn gallu amharu ar y rhai sydd gyda diddordeb mewn edrych ar y sêr a'r planedau liw nos. Mae Cyngor Gwynedd wedi dod i gytundeb gyda rhai o'r ardalwyr i osod gorchuddiai dros y lampau yn Rallt ac gwmpas y ficerdy. Bydd hyn yn cyfeirio'r golau i lawr ac nid i fyny.

## Diolch o Galon!

Mae Cyngor Cymuned Bethesda wedi darparu 2 diffibriliwr arall yn y gymuned. Un wedi ei osod tu allan i'r Caban yn y Gerlan, a'r llall tu allan i Siop Rachub. Diolch i'r perchnogion am roi caniatâd i ni eu gosod. Diolch i Tomos Hughes o Achub Calon y Dyffryn am y gwasanaeth gwych yn eu cyflenwi a'u gosod unwaith eto.





# Talybont

**Neville Hughes**, 14 Pant, Bethesda (600853)
**Barbara Jones**, 1 Dol Helyg, Talybont (353500)

Ystyriwch mewn difri' bod gwyliau'r Sulgwyn, a hanner y flwyddyn 2021 wedi mynd heibio'n barod. Mae arna'i ofn, ar ôl saib o ddwy flynedd, bod hwyl a bwrlwm y paratoi at 'Steddfod yr Urdd a Rali'r Ffermwyr Ifainc, neu'r cystadlu brwd yn ein Sioe Leol wedi mynd yn bethau dieithr iawn i blant y Dyffryn , ac i ninnau o ran hynny. Dim ond gobeithio bydd y pla wedi hen gilio flwyddyn i rŵan, ac y byddwn yn gallu ail-afael yn y tresi gyda chymaint o frwdfrydedd ag erioed.

**Genedigaeth**
Rhaid cyfaddef nad oes gennym lawer iawn o newyddion o Dalybont y tro hwn, ond braf yw cael estyn llongyfarchiadau cynnes iawn i Sheila Owen, Millbank, Dolhelyg, ar ddod yn hen-nain am yr eil-dro y mis diwethaf. Ganwyd Jasper Finnan i'w hŵyr, Carwyn, a Lucy sy'n byw ar Ynys Môn. Llongyfarchiadau hefyd i Carl, mab Sheila, a'i wraig Pauline, Tyddyn Iolyn, ar ddod yn Daid a Nain am y tro cyntaf.



**Llongyfarchiadau**
Pleser oedd cyfarfod â Siân Evans, merch Margaret a Neville Fearnley, Helyg, yn ddiweddar, a'i chyfarch yn Gymraeg. Dim ond ers rhyw ddau fis mae Siân yn dysgu'r iaith. Cafodd ei geni yn Lloegr, lle mae hi wedi byw a gweithio ar hyd ei hoes ond, a hithau wedi ymddeol bellach, mae hi wedi penderfynu mynd ati i feistrioli iaith ei mam. 'Fedra'i ddim peidio â meddwl mor falch fyddai Mrs William Hugh Hughes, mam Mag, pe gwyddai bod ei hwyres wrthi mor ddygn yn adfeddiannu ei hetifeddiaeth.

**Penblwydd arbennig**
Llongyfarchiadau i Dylan Jones, 13. Dolhelyg, ar ddathlu ei benblwydd yn 21 ym mis Mai. Mae'r dair blynedd ers y penblwydd arbennig diwethaf wedi hedfan. Pob lwc i'r dyfodol, Dylan!

**Dymuniadau gorau**
Dymunwn wellad buan i bawb sydd yn yr ysbyty ar hyn o bryd, neu'n sâl yn eu cartrefi.
Anfonwn gyfarchion arbennig i Bert, tad Sandra, 13. Dolhelyg, ac i Idris Thomas, rhif 16.

**Diolch**
Diolch o galon i bawb a ddychwelodd ei amlen Cymorth Cristnogol lawn imi. Oherwydd cyfyngiadau Cofid, ni chawsom hel o dŷ i dŷ fel yn y blynyddoedd cynt. Diolch hefyd i Barbara Jones, Jean Hughes a Catrin Hobson am rannu'r amlenni o gwmpas y tai.

## Capel Bethlehem

*Oedfaon*
Hyfryd oedd medru croesawu'r ffyddloniad i'r oedfa ar brynhawn y Sulgwyn, 23 Mai. Ein Gweinidog, y Parchedig John Pritchard oedd yn gwasanaethu, ac ef hefyd fydd efo ni ar 13 a 27 Mehefin a 11 Gorffennaf.

*Paentio*
Edrychwn ymlaen at weld y capel yn cael ei baentio oddi allan yn ystod yr wythnosau nesaf.






# Wythnos Cymorth Cristnogol

## 10fed – 16eg Mai 2021

Thema Wythnos Cymorth Cristnogol 2021 oedd diffyg dŵr mewn gwledydd yn Affrica oherwydd effeithiau newid hinsawdd. Ar ôl methu gwneud unrhyw beth i gefnogi'r wythnos y llynedd oherwydd y pandemig, roeddem yn awyddus iawn i geisio codi arian tuag at yr achos eleni, er nad oedd modd gwneud casgliad o ddrws i ddrws, na chynnal y bore coffi arferol.

Diolch i Bartneriaeth Ogwen am adael i ni ddefnyddio eu swyddfa ar y Stryd Fawr fel man i bobl adael eu hamlenni – ni fyddai wedi bod yn bosib cynnal y casgliad heb eu cymorth. Diolch yn fawr hefyd i bob gwirfoddolwr a roddodd yr amlenni drwy'r drysau ym Methesda, Tregarth, Gerlan, Rachub, Llanllechid, Carneddi, Talybont a Llandygai.

Roedd yn braf cynnal gwasanaeth Cymorth Cristnogol gyda'r nos 10fed Mai yng Nghapel Jerusalem, a diolch i Menai a Walter Williams am ei drefnu. Diolch hefyd i'r Parchedig John Pritchard, a arweiniodd y gwasanaeth a'i bregerth pwerus.

Mae'n bleser nodi ymdrech Ysgol Llanllechid a gymerodd ran gan lwyddo i godi £232.45!

Rwyf yn falch o gyhoeddi mai'r cyfanswm a godwyd yn yr ardal yw £1,965.59, gan gynnwys cyfraniad Ysgol Llanllechid a nodwyd uchod, dros £200 o'r gwasanaeth yng Nghapel Jerusalem, a rhoddion o £50 gan Eglwys Llandegai a £40 gan Eglwys Unedig Bethesda.

Yn ychwanegol at hyn derbyniwyd ffurflenni Rhodd Cymorth gan rai o'r cyfrannwyr, sydd yn golygu y bydd oddeutu £200 yn cael ei hawlio gan Gymorth Cristnogol oddi wrth adran Cyllid a Thollau y llywodraeth.

Diolch yn fawr iawn i bawb sydd wedi cyfrannu at y cyfanswm yma; rydym yn wir gwerthfawrogi'ch cefnogaeth a'ch haelioni.

*Lester Bath, Cydlynydd Wythnos Cymorth Cristnogol Bethesda a'r Cylch.*

post@llaisogwan.com

## Ysgol Tregarth

**Ymweliad PC Owain**
Cawsom gyfle i gyfathrebu gyda PC Owain yn ddiweddar drwy alwad fideo. Roedd PC Owain yn rhannu negeseuon pwysig gyda disgyblion y Cyfnod Sylfaen. Bu'r disgyblion yn dysgu am 'Bwy? Beth? Ble?' Roedd rhaid penderfynu beth i wneud gyda'r bag oedd wedi cael ei ddarganfod a sut i gadw'n ddiogel. Diolch i PC Owain am y gwersi pwysig ac rydym yn edrych ymlaen at ei ymweliad eto'n fuan.

**Deinosoriaid Di-ri**
Mae dosbarth Llywelyn wedi bod yn andros o brysur yn ystod yr hanner tymor gan ddysgu am ddeinosoriaid. Syniad un disgybl oedd chwilio am ffosiliau ymysg y tywod. Roedd y disgyblion wrth eu boddau yn chwarae rôl archeolegwyr gan ddarganfod ffosiliau a chymhwyso eu sgiliau mesur, pwyso ac ysgrifennu adroddiadau. Hefyd, fe aeth y disgyblion allan i ddarganfod maint olion traed y deinosoriaid. Roedd rhaid mesur hyd a lled y droed yn ogystal â darganfod brasgamau'r deinosoriaid. Fe wnaethom ddarganfod mai'r Brachiosorws oedd gyda'r olion traed mwyaf.

**Dosbarth Idwal**
Mae hi wedi bod yn hanner tymor prysur unwaith eto yn nosbarth Idwal a phawb yn parhau i weithio'n galed a mwynhau. Ein thema oedd 'Byd y Deinosoriaid' a chafodd y disgyblion hwyl yn datblygu eu sgiliau mesur a phwyso, creu disgrifiad o ddeinosor yn ogystal ac amrywiol weithgareddau yn ardaloedd y dosabrth. Cafwyd cyfle i chwarae rôl, gwisgo gel deinosor a mynd ar helfa deinosoriaid. Roedd cynnwrf yn y dosbarth hefyd pan aethom ati i ail-greu llosgfynydd yn ffrwydro! Thema yn llawn hwyl a'r disgyblion wedi mwynhau yn fawr.

**Prosiect Sbectrwm**
Braf oedd gallu croesawu Meri Jones atom i'r Ysgol i gyflwyno sesiynau Prosiect Sbectrwm i ddisgyblion blwyddyn 6. Bu cryn drefnu, ail drefnu ac addasu ar amserelen Meri dros y misoedd diwethaf. O'r diwedd, llwyddodd i ddod atom i weithio gyda blwyddyn 6 yn unig. Cawsant gyfle o dan arweiniad arbenigol Meri i drafod materion hollbwysig yn ymwneud a Pherthynas Iach, Siawns neu Ddewis a Chylch Diogelwch. Roeddem yn hynod falch o glywed pa mor aeddfed a deallus oedd ymateb ein disgyblion hynaf wrth drafod pynciau dyrys a phwysig. Bydd hyn yn sail cadarn iddynt wrth ystyried diogelwch personol, ac wrth drosglwyddo i'r sector uwchradd ym mis Medi.

**Ymweliad gan Dr. Betsan Gruffydd**
Ein thema ar gyfer y tymor yma yw esgyrn, gwaed a darnau gwaedlyd. I gyd-fynd â'r thema, cafodd dosbarth Ogwen a Ffrydlas y fraint o groesawu Dr. Betsan Gruffydd o Ysbyty Gwynedd ar gychwyn y tymor. Cafodd ddosbarth Ogwen y cyfle i ddysgu am esgyrn y corff ac edrych ar belydrau X. Tra cafodd dosbarth Ffrydlas gyflwyniad llawn gwybodaeth am y galon. Roedd yn braf cael cychwyn croesawu ymwelwyr o du allan i'r ysgol yn ôl, ar ôl cyfnod mor hir o fethu. Ysgogodd hyn i ddosbarth Ogwen fynd ati ymchwilio fwy am esgyrn y corff a chreu llyfr ffeithiol. Bu dosbarth Ffrydlas yn brysur yn defnyddio'r hyn yr oedden wedi ei ddysgu i greu pamffled gwybodaeth am y galon. Diolch yn fawr i Dr. Betsan Gruffydd am ymweld â'r ysgol.

**CPR**
Hefyd, i gyd-fynd â thema dosbarth Ogwen a Ffrydlas, bu'r plant yn dysgu'r camau i gymryd os byddent yn dod o hyd i rywun sy'n anymwybodol. Dysgodd dosbarth Ogwen am y camau DRABC ac yna creu iMovie i ddangos y camau sydd angen eu cymryd wrth wneud CPR. Cawsom fenthyg delwau gan Ganolfan Byw yn Iach Arfon fel bod y plant yn gallu gweithio mewn grwpiau bach a chael cyfle i weithio trwy'r cyfarwyddiadau. Roedd hyn yn gyfle i blant ddeall beth all ddigwydd i'r corff os mae'r galon yn stopio a beth yw'r camau sydd angen eu cymryd i drio achub bywyd rhywun a thrio cael y galon i gychwyn pwmpio yn ôl.

MODURDY FFRYDLAS
Profion M.O.T.
Perchennog
A. Ll. Williams
Stryd Fawr, Bethesda
• PROFION M.O.T. •
GWASANAETH • ATGYWEIRIO
•TEIARS A BATRIS•
GWASANAETH TORRI I LAWR NEU DDAMWAIN
☎ 600723
Ffacs: 605068

Elwyn Jones & Co
hefyd yn masnachu fel
Parry Davies Clwyd-Jones & Lloyd LLP
- Cyfreithwyr -
123 Stryd Fawr
Bangor
Gwynedd
(01248) 370224
*Ar gyfer eich holl anghenion cyfreithiol*
*Gwasanaeth dwyieithog personol a chyfeillgar*
*Swyddfeydd eraill:*
*Llangefni* (01248) 723106 — *Porthaethwy* (01248) 719517 — *Benllech* (01248) 852782
*Caernarfon* (01248) 673616 — *Pwllheli* (01758) 703000

JOHN ROBERTS

Paentiwr
Papurwr
Teilsiwr
Symudol: 07747 628650
Ffôn: 01248 600995

J. TEMPLE MORRIS A'I FAB
Pob Math o Waliau Cerrig,
Ffensio, Tarmacio a Thirlunio.
Gwaith gyda peiriant tyrchu bach.
07770 900531
01248 600282
jtemplemorris@btinternet.com

Londis Bethesda
☎ 01248 605566
Archfarchnad hwylus
a Swyddfa Bost
Gwasanaeth personol
gyda'r pwyslais ar y cwsmer
Tocynnau Loteri, cardiau a biliau trydan a nwy
Ar agor 7.00 y bore tan 10.00 yr hwyr
7 diwrnod yr wythnos

post@
llaisogwan.
com

# Rhiwlas

**Iona Jones**, 17 Bro Rhiwen, Rhiwlas
ionarhiwen@hotmail.co.uk (01248 355336)

**Llongyfarchiadau**

Llongyfarchiadau i'r Cynghorydd Elwyn Jones ar ei ethol yn Is-Gadeirydd Cyngor Gwynedd. Mae'n cynrychioli Rhiwlas, Penisarwaun a Brynrefail.

**Merched y Wawr Gŵyl Haf 2021**

Roedd sawl cystadleuaeth yn yr ŵyl yma a chyfle hefyd i'r dysgwyr ddangos eu doniau. Un a wnaeth gystadlu yn Adran y Dysgwyr yw Kate Wheelock, Bronnydd ac yn aelod o gangen Rhiwlas. Y testun oedd "Daeth Tro ar Fyd" ac fe ddaeth yn bedwerydd gyda chanmoliaeth. Llongyfarchiadau, Kate.

Ers tro bellach y mae Kate wedi sefydlu Paned a Sgwrs i'r dysgwyr gyda rhai o'r pentref yn helpu ac yn ystod y cyfnod yma maent yn cyfarfod ar Zoom.

**Newid aelwyd**

Mae Steffan a Debbie Job a'r plant wedi symud, na nid o'r pentref ond wedi ymgartrefu yn 27, Bro Rhiwen. Pob dymuniad da i chi yn eich cartref newydd.

**Mis Mai 2021**

Dyma bennill adnabyddus gan Eifion Wyn yn ei gerdd am fis Mai,

Gwn ei ddyfod, fis y mêl,
Gyda'i firi yn yr helyg
Gyda'i flodau fel y barrug
Gwyn fy myd bob tro y dêl.

Yn anffodus nid fel yna y bu'r mis eleni Cawsom law a llifogydd, eira a chesair, a gwyntoedd mor gryf nes i sawl ardal golli eu cyflenwad trydan.

Yn ôl ystadegau am y tywydd hwn yw'r mis Mis Mai gwlypaf ers 1862. Mae dipyn o hen arferion Calan Mai, neu G'lamai ar lafar gwlad, ac roedd noswyl G'lamai yn dathlu diwedd y Gaeaf. Dyma'r amser pan oedd y bugeiliaid yn symud nôl i'r hafoty gyda'u hanifeiliaid. Dyma'r amser hefyd pan oedd ffeiriau pentymor a chyfle i gyflogi gweision.

Mae'r llyfrau *Tro Drwy'r Tymhorau* ac *Am y Tywydd* gan Twm Elias efo ffeithiau diddorol a dywediadau am y misoedd. Dyma rai enghreifftiau -

Mai a gyfyd y galon.
Glaw Mai i ladd llau.
Ni saif eira fis Mai
Daw cawodydd mis Mai fel llanw a'r trai
Glaw mis Mai, ysguboriau llawn
Eira Mai oer, sgubor lawn
Gaeaf hyd Fai, haf hyd Calan

Mae'r ddau lyfr yn frith o ddywediaduau wedi eu casglu o wahanol ardaloedd hefyd.

**Y Neuadd**

Mae'r Neuadd nawr ar agor ac os am gael y Neuadd ar gyfer digwyddiad ewch ar y wefan neuaddrhiwlas.cymru a bydd ffurflen archebu ar gael.

Sefydlwyd 1969
m.hughes a'i fab
CONTRACTWYR TOI
Bryn Myfyr, Allt Pen y Bryn, Bethesda
☎ 600633
☎ (symudol) 07702 583765
*Arbenigo mewn gwaith fflelt a pitsio. Hefyd toeau llechi a gwaith yswiriant. Gadewch i ni gynnig pris rhesymol am waith diguro.*

Arbenigwr mewn lloriau coed caled
A.G.L. Lloriau
Arbenigwr mewn gosod a selio lloriau coed caled, adnewyddu lloriau gwreiddiol a chyweirio lloriau sydd wedi eu difrodi.
Andrew G. Lomozik B.A.
Ffôn: 01248 602117 Symudol: 07835487909

L. Sturrs a'i feibion
sefydlwyd yn 1965
ADEILADWYR
Hen Iard Stesion, Ffordd y Stesion, Bethesda
Ffôn: 600953
lsturrs@googlemail.com


Manylion Cyswllt Cynghorwyr Sir Dyffryn Ogwen
Rachub, Carneddi, Gerlan, Braichmelyn
cynghorydd.paulrowlinson@gwynedd.llyw.cymru 01248 605365
Tregarth, Mynydd Llandygái
cynghorydd.dafyddowen@gwynedd.llyw.cymru 01248 605523
Bethesda
cynghorydd.rheinalltpuw@gwynedd.llyw.cymru 07789 742092
Llanllechid, Talybont, Llandygái, Aber, Tyn-y-Maes
cynghorydd.dafyddmeurig@gwynedd.llyw.cymru 07765 400140
@CynghorwyrDyffrynOgwen @PlaidCymruOgwen

Contractwyr Trydanol
Jones & Whitehead Cyf
Swyddfa Gofrestredig
Penrala, Tregarth, Bangor, Gwynedd, LL57 4AU
Ffôn: 01248 601257
Ffacs: 01248 601982
E-bost: info@jonesandwhitehead.co.uk

# Difyrion Digidol

## Deian ap Rhisiart

Yn y golofn ddiwethaf, y testun dan sylw oedd cynnwys Cymraeg ar y We ac mi rydw i am gadw yn fras ar yr un pwnc y tro hwn trwy fwrw golwg ar yr adnoddau cymorth iaith sydd ar gael.

Dwi'n siwr eich bod wedi crafu pen lawer gwaith wrth chwilio am gyfieithiad i air Saesneg sy'n rhy ddiweddar i gopi caled o Eiriadur yr Academi - peidiwch mynd yn bell! Mae yna gymorth hanfodol ar gael trwy'r *Ap Geiriaduron* neu Eiriadur yr Academi ar y We.  Dyma ddau adnodd cwbl amhrisiadwy i'ch cynorthwyo wrth ysgrifennu. Mae Geiriadur yr Academi ar y We yn cael ei ddiweddaru'n gymharol gyson ac mae unrhyw dermau newydd yn cael eu hychwanegu at y rhestr. I gyrraedd hwn ewch chi https://geiriaduracademi.org/ ond yn amlwg mae'n cyfieithu yn unig o'r Saesneg i'r Gymraeg. Yr hyn sy'n dda am yr *Ap Geiriaduron* – yw ei fod yn bosib cyfieithu gair o'r Saesneg i'r Gymraeg ac o'r Gymraeg i'r Saesneg. Mae hefyd yn galluogi i chi ganfod beth yw ffurf y gair a'i genedl enw ac mae hyd yn oed yn gweithio fel odliadur, dim ond i chi roi y symbol * o flaen y gair yn y blwch chwilio.  Os nad yw'r gair yr ydych yn chwilio amdano yn yr ap, mae'n caniatau i chi fynd yn awtomatig at y Porth Termau Cenedlaethol i weld os ydio yn fanno. Mae'r wefan hon yng ngofal y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ac yn elwa o arbenigedd adrannau prifysgol ym maes y gwyddorau, y gyfraith a'r celfyddydau. Gellir canfod y Porth yma yn uniongyrchol trwy'r ddolen hon http://termau.cymru/. Er mwyn gallu defnyddio'r Ap Geiriaduron ar eich ffôn clyfar neu dabled, ewch i chwilio amdano yn y Play Store (ar gyfer ffôn neu dabled Android) neu'r App store (ar gyfer teclynnau Apple), gan ei lwytho ar eich teclyn. Os ydych yn ansicr gyda'ch treigladau hefyd, mae posib defnyddio Ap Treiglo sydd wedi ei greu gan Ganolfan Peniarth, sy'n egluro'r gwahanol dreigladau. Mae'r ap yma eto ar gael yn yr un lle.

Os ydych yn chwilio am darddiad enwau a diffiniad termau, mae Geiriadur Prifysgol Cymru ar-lein yn ffordd wych o ganfod hynny https://geiriadur.ac.uk/gpc/gpc.html

Dau adnodd sy'n ddefnyddiol tu hwnt wrth sicrhau cywirdeb ysgrifenedig yw gwefan Cysill https://www.cysgliad.com/cysill/arlein/  a rhaglen feddalwedd Cysgliad sydd bellach am ddim i'w lawrlwytho – Mae Cysgliad yn gallu gwirio dogfen hirach na Cysill a gellir ei lawrlwytho trwy'r ddolen ganlynol https://www.cysgliad.com/cy/ . Y gwahaniaeth rhwng y ddau sy'n rhan o'r un gwasanaeth yw bod modd cyfieithu mwy o eiriau ar un tro trwy ddefnyddio rhaglen Cysgliad ar eich prif gyfrifiadur, a hynny heb gyswllt gwe.  Heb os, os ydych angen cymorth i'ch cynorthwyo wrth wirio darn ysgrifenedig a gwella cywirdeb, mae'r ddau yn ddefnyddiol mewn amgylchiadau gwahanol a Cysill yn fwy defnyddiol os ydych angen gwirio brawddeg neu ddwy yn sydyn ar eich ffôn clyfar, er enghraifft.

Mae yna lawer yn feirniadol o Google Translate a hynny am reswm da – mae ambell i awdurdod lleol a chyrff cyhoeddus yn ei ddefnyddio i gyfieithu bob dim dan haul ac yn gwneud llanast ofnadwy! Ond dwi am roi fy mhen ar y bloc a dweud fod defnyddio Google Translate yn iawn yn ei le. Pam dwi'n deud hyn? Os ydych isio dechrau'r broses o gyfieithu dogfen, mae'n werth gadael i Google Translate ei gyfieithu yn ei gyfanrwydd yn gyntaf ond gan bwysleisio eich bod wedyn yn ei brawf ddarllen yn ofalus i sicrhau nad oes yna gyfieithiadau gwirion. Fe allwch ddefnyddio Google Translate i gyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg neu fel arall. Mae Google Translate wedi gwella dros y blynyddoedd diwethaf ac mae'n gweithio fel sylfaen dda cyn prawf ddarllen y darn ysgrifenedig ond cofiwch fel drafft a man cychwyn yn unig! Mae Microsoft Bing yn wasanaeth arall cyfieithu ac mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio gyda hwy i ddatblygu'r gwasanaeth. Dwi ar ddeall fod gwasanaeth cyfieithu Bing yn fwy cywir na Google, ond ewch ati i gymharu'r ddau!  https://translate.google.co.uk/  https://www.bing.com/translator  ond eto byddwch yn ofalus!

Os ydych yn ansicr o enw Cymraeg i rywogaeth ym myd natur, mae'n werth i chi weld yn gyntaf os ydio yn yr Ap Geiriaduron. Os nad yw'r enw dan sylw yno, ewch ati i gwglo'r enw. Teipiwch enw aderyn er enghraifft 'Jay'  gan roi 'Cymraeg' ar ei ôl yn Google, ac mi ddaw'r canlyniadau a'r un cyntaf sy'n ymddangos ar yr rhestr yw dolen gan eiriadur Glosbe, sy'n nodi mai Sgrech y Coed yw'r enw!

Felly cofiwch, mae yna ddigon o adnoddau i'ch cynorthwyo ac i gefnogi pobl sy'n llai hyderus yn ei Cymraeg ysgrifenedig ar y We ond y cyngor gorau yw i brawf ddarllen unrhyw ddarn cyn cyhoeddi!  Am fwy o wybodaeth am dechnoleg Cymraeg ewch i https://businesswales.gov.wales/heloblod/cy/technoleg-cymraeg

Os ydych chi fel mudiad neu wirfoddolwyr angen cymorth, cyngor neu hyfforddiant am ddim ar dechnoleg yr Iaith Gymraeg, gadewch i ni wybod mae croeso i chi ebostio ni: Cymunedau.Digidol@wales.coop



## Ysgol Llanllechid

**Gwellhad Buan**

Anfonwn ein cofion at Mrs Marian Jones, sy'n gwella ar ôl derbyn llawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar. Yn yr un modd anfonwn ein cofion at Ms Rhian Haf, sydd hefyd yn gwella, yn dilyn gwaeledd.

**Cymorth Cristnogol**

Bu dosbarthiadau Mrs Llinos Wilson, Mrs Rona Williams a Mrs Nerys Tegid yn brysur yn casglu arian ar gyfer Cymorth Cristnogol, er mwyn sicrhau cyflenwadau o ddŵr glan mewn gwledydd megis Malawi. Cynhaliwyd pob math o weithgareddau gan gynnwys cwis, disgo, cadw'n heini, sioe ffasiynau ac ati. Llwyddwyd i gasglu £232.45 at yr achos yma. Llongyfarchiadau calonogol.

**Gwledd**

Roedd gwahoddiadau lu wedi eu dosbarthu ar gyfer y wledd yng nghastell y Brenin March ap Meirchion. Cafwyd lluniaeth, wedi ei baratoi gan y disgyblion a digon o ddawnsio gwerin! P'nawn i'w gofio! Diolch i ddosbarth Mrs Bethan Jones.

**Dylunio Stampiau**

Llongyfarchiadau i Naomi Thomas, Efa Gwen Owen, Isabel Mair Jones, Caio Euron Jones, Dela Pritchard a Lili Mair Herbert ar ddylunio stampiau ar gyfer y post brenhinol. Roedd eich stampiau yn werth eu gweld ac yn dangos eich arwyr yn glir! Da iawn chi!

**Hanes Streic Fawr y Penrhyn**

Bu dosbarth Ms Gwenlli Haf yn dysgu am hanes Streic Fawr y Penrhyn, wrth ddarllen *Bwli a Bradwr* gan Brenda Wyn Jones; llyfr gwerth ei astudio. Erbyn hyn, mae'r disgyblion yn deall yn iawn beth yw arwyddocad ac ystyr, "nid oes bradwr yn y tŷ hwn!"

**Gwylltgrefft**

I Barc Meurig aeth ein Blwyddyn 6 i ddysgu pob math o sgiliau gan dad Dafydd, Mr Stephen Jones o gwmni Anelu. Er iddi ddymchwel i lawr am gyfnod yn y bore, cafwyd diwrnod i'w gofio! Diolch o galon.

**Diogelwch ar y We**

Bu disgyblion Blwyddyn 4 yn dysgu llawer am sut i gadw'n ddiogel ar y we gan PC Owain Edwards. Negeseuon pwysig! Cofiwch nhw, blantos!

**Diwrnod y Gofod**

Ar Fai y deuddegfed, cynhaliwyd diwrnod y gofod yn ein hysgol a dysgwyd cant a mil o ffeithiau diddorol am fydoedd pellennig! Yr uchafbwynt wrth gwrs oedd croesawu'r ofodwraig i'n hysgol; neb llai na Mrs Rona Williams. Diwrnod llawn bwrlwm a hwyl!




**Plas Ffrancon a'r Clwb Criced**

Diolch i Blas Ffrancon am gael defnyddio'r cae pob tywydd a diolch hefyd i'r Clwb Criced am gael picio draw i chwarae criced! Rydym mor ffodus o gael yr adnoddau hyn ar ein stepan drws!

**Teithiau Cerdded**

Bu rhai o blant y Cyfnod Sylfaen ar hyd Lôn Las Ogwen, drwy'r 'tynal tywyll' ac i Dregarth a cherdded cyfanswm o 8 milltir! Camp yn wir. Bu eraill o'r Cyfnod Sylfaen ar hyd Lon Fach Odro yn mwynhau'r heulwen, wedi'r holl law ddiweddar!

**Murlun Pesda**

Diolch i Mr Dafydd Roberts, a fu'n gweithio yn yr ysgol am blwc fel athro llawn, am gynorthwyo'r disgyblion i greu murlun arbennig, sy'n llawn syniadau'r plant. Edrychwn ymlaen at weld y murlun hwn yn cael ei arddangos yn Llys Dafydd, fel rhan o ddathliadau dau gan mlwyddiant yr ardal.

**Garddio**

Cafwyd sesiynau garddio wythnosol a'r plant wrth eu boddau yn ceibio a rhawio! Edrychwn ymlaen at gynaeafu'r cynnyrch nes 'mlaen!

**Capel Celyn**

Daeth Mr Walter Williams at Flwyddyn 4, i adrodd hanes ei blentyndod cynnar yng Nghapel Celyn, a'r ffaith iddo gael ei eni yn Swyddfa Post y pentref, sydd bellach o dan y dŵr. Gwersi pwysig a'r plant yn llawn rhyfeddod a diddordeb. Diolch, Mr Williams.



## Cymdeithas Edward Llwyd

# Dysgwyr!

## Dyma'ch cyfle i ennill £150!

Cystadleuaeth: Erthygl i'r ***Naturiaethwr***

Oes gennych chi ddiddordeb mewn byd natur, neu mewn effeithiau dyn ar fyd natur? *Y Naturiaethwr* yw cylchgrawn Cymdeithas Edward Llwyd, sef Cymdeithas Genedlaethol Naturiaethwyr Cymru. Enwyd y Gymdeithas ar ôl y naturiaethwr, yr ieithydd a'r hynafiaethydd Edward Llwyd (1660 - 1709). Penderfynwyd cynnal cystadleuaeth i ddysgwyr i ysgrifennu erthygl ar unrhyw bwnc sy'n ymwneud â diddordebau Edward Llwyd. Sonnir am ei ddiddordebau yn yr englyn er cof amdano gan John Morgan, yn y ddeunawfed ganrif:

Meini nadd a mynyddoedd – a gwaliau
Ac olion dinasoedd
A dail, dy fyfyrdod oedd,
A hanesion hen oesoedd.

Dylid i'ch erthygl fod rhwng mil a dwy fil o eiriau a chroesewir lluniau addas i fynd gyda'r erthygl, a dylid anfon erthyglau yn ffurf MS Word neu raglen gyfrifiadurol gyffelyb, os bosib, drwy ebost at: naturiaethwr@triban.net

Bydd erthyglau addas yn cael eu cyhoeddi yn *Y Naturiaethwr*, a bydd gwobr o £150 i'r erthygl orau.

Anfonwch eich erthygl erbyn 5ed o Orffennaf 2021 os gwelwch yn dda.

Mae enghreifftiau o'r Naturiaethwr i'w gweld ar y we, yma: www.cymdeithasedwardllwyd.cymru/y-naturiaethwr/

Nodyn:
Mae ysgrifennu yn rhan bwysig iawn yn eich ymdrech i ddysgu Cymraeg. Mae'n rhoi amser i chi feddwl am y ffordd gorau o fynegi eich hun. Pan dach chi'n sgwrsio efo rywun dach chi'n gorfod meddwl yn gyflym ac mae'r sgwrs yn eich blino. Mae pawb yn gallu ysgrifennu dim ond iddyn nhw wneud y camau cyntaf. Felly rhowch gynnig ar y gystadleuaeth yma, hyd yn oed os nad ydych yn ennill bydd y profiad yn werthfawr iawn.
Pob lwc
**Rob Evans**

# Safle Treftadaeth y Byd

## – rhaid gweithredu mesurau penodol i warchod y cymunedau

Os bydd ardaloedd y llechi yng Ngwynedd yn cael eu dynodi'n Safle Treftadaeth y Byd gan UNESCO, yna mae nifer o fesurau y mae'n rhaid i Gyngor Gwynedd eu gweithredu er mwyn sicrhau na fydd y dynodiad yn cael effeithiau niweidiol ar ein cymunedau gan gynnwys ein hiaith. Mae'n eironig bod UNESCO ei hun, mewn adroddiad a gyhoeddwyd ym mis Mai, yn gosod y Gymraeg yn y dosbarth 'Bregus' ar ei restr o ieithoedd Ewropeaidd sydd mewn perygl o ddiflannu.

Gan mai ardaloedd fyddai'n cael eu dynodi, yn hytrach nac adeiladau a strwythurau (yn wahanol i'r Safleoedd Treftadaeth y Byd sy'n bod eisoes yng Nghymru), mae perygl i'r ardaloedd cyfan hynny ddod yn fwy o gyrchfannau gwyliau nag y maent eisoes. Mae Croeso Cymru yn un o randdeiliaid y cais dynodi, ac mae'r corff cenedlaethol hwn ynghyd â chwmni Twristiaeth Gogledd Cymru yn amcanu denu mwy fyth o ymwelwyr i ardaloedd fel Dyffryn Ogwen os bydd yr enwebiad yn llwyddiannus.
Gan hynny, mae angen i Gyngor Gwynedd ateb y ddau gwestiwn canlynol:

1. Sut mae'r Cyngor am sicrhau na fyddai mwy o stoc dai Bethesda a'r cylch yn troi'n ail gartrefi a thai gwyliau tymor-byr o ganlyniad i'r dynodiad, ac felly'n dwysáu'r argyfwng tai? Mae astudiaeth academaidd yn dangos bod nifer dda o ymwelwyr i ardal yn dewis prynu tŷ yno fel ail gartref.
2. Sut mae Cyngor Gwynedd yn mynd i sicrhau na fyddai denu mwy o ymwelwyr yn cynyddu'r mewnlifiad Saesneg ac felly'n gwanychu'r Gymraeg fel iaith gymdeithasol? Mae astudiaeth yn dangos bod nifer dda o ymwelwyr i ardal yn prynu tai i fyw yno'n barhaol. Ymhellach, cafwyd astudiaeth gan Bwyllgor Cludiant a Thwristiaeth Senedd Ewrop yn cyflwyno tystiolaeth fod Safleoedd Treftadaeth y Byd yn dioddef effeithiau gor-dwristiaeth, a bod Cymru eisoes yn un o'r lleoedd yn Ewrop sy'n amlygu hynny.

Mae'r duedd i ail gartrefi a thai gwyliau gynyddu mewnlifiad parhaol wedi'i dwysáu gan y pandemig, wrth i ragor o bobl ddod yma ar wyliau yn hytrach na mynd dramor; wrth i ragor benderfynu ymddeol yma'n gynnar; a rhagor yn symud i fyw yma a gweithio o gartref. Mae hynny'n codi prisiau eiddo, ac yn gwaethygu'r argyfwng tai oherwydd na all pobl leol fforddio prynu tŷ yn eu hardal eu hunain.

Sut mae atal hynny? Rhaid i Gyngor Gwynedd gymryd camau a gosod mesurau penodol yn eu lle er mwyn sicrhau na fyddai'r dynodiad yn cael effeithiau negyddol ar y gymuned, sef:

1. Gwneud holl gynghorau cymuned ardaloedd y llechi yn rhanddeiliaid yn y Safle Treftadaeth y Byd trwy roi lle i'w cynrychiolwyr ar y Bwrdd Rheoli, fel bod y cynghorau cymuned yn cyfranogi'n llawn yn nhrafodaethau a phenderfyniadau'r Bwrdd Rheoli. Byddai hynny'n eu galluogi i fynegi barn gymunedol ar strategaeth, prosiectau a datblygiadau.
2. Bod Adran Gynllunio y Cyngor Sir yn ail-lunio methodoleg yr asesiad ardrawiad iaith presennol fel ei fod yn llawer cadarnach, er mwyn gwneud yn siŵr na fyddai datblygiadau tai a datblygiadau twristaidd yn niweidiol i'r Gymraeg fel iaith gymunedol. Wedi'r cyfan, ein hiaith ydi ein treftadaeth gyfoethocaf fel bro ac fel gwlad, ac mae ei sefyllfa'n fregus.
3. Bod yr Adran Gynllunio yn sefydlu meini prawf a dangosyddion ar gyfer datblygiadau twristaidd o bob math er mwyn atal y gor-ddarparu presennol. Mae gormodedd yn broblem fawr yng Ngwynedd o ganlyniad i or-dwristiaeth, a rhaid rheoli'r sefyllfa er mwyn gwarchod buddiannau cymunedau lleol.
4. Sicrhau na fydd Croeso Cymru a chwmni Twristiaeth Gogledd Cymru yn camddefnyddio'r dynodiad er mwyn hyrwyddo eu hamcanion eu hunain.

Nid yw'r ddau corff hyn yn atebol i'n cymunedau ni, ac nid ydynt yn derbyn bod twristiaeth anghynaliadwy ar waith yng Ngwynedd, nac yn cydnabod bod gor-dwristiaeth yn ymledu drwy'r sir.

Gofynnwn i Gyngor Gwynedd ymateb yn gadarnhaol i'r argymhellion hyn, a thrwy hynny ddangos ymrwymiad i wneud popeth sydd ei angen i sicrhau na fyddai dynodi ardaloedd y llechi yn Safle Treftadaeth y Byd yn gam a allai wneud sefyllfa'n hiaith yn fwy bregus fyth. Hyd yma, nid ydynt wedi gwneud.

Yn gywir,
**Howard Huws**
Cydlynydd Ymgyrch Dwristiaeth Cylch yr Iaith

# Dileu dirwyon ar lyfrau hwyr o Lyfrgelloedd Gwynedd

Mae Cyngor Gwynedd wedi penderfynu gwneud i ffwrdd ar godi tal am lyfrau a ddychwelir yn hwyr i lyfrgelloedd y sir.

Yn ystod y pandemig, cymerwyd penderfyniad i estyn dyddiadau dychwelyd yn otomatig, a olygai nad oedd llyfrau byth yn hwyr.

Mae'r penderfyniad gan y Cyngor a fydd yn ei le o 1 Ebrill 2021, yn golygu na fydd defnyddwyr yn cael eu cosbi am lyfrau a ddychwelir yn hwyr o hyn ymlaen.

Mae dirwyon ar lyfrau plant a phobl ifanc dan 18 oed wedi eu hatal yng Ngwynedd ers nifer o flynyddoedd. Cyflwynwyd y drefn gan fod teimlad bod dirwyon yn rhwystr sy'n atal pobl ifanc a theuluoedd rhag defnyddio'r llyfrgell - mae'r un egwyddor bellach yn weithredol ar gyfer llyfrau hwyr a ddychwelir gan oedolion.

Dywedodd y Cynghorydd Gareth Thomas, Aelod Cabinet Cyngor Gwynedd sydd â chyfrifoldeb am lyfrgelloedd:

"Rydw i'n falch iawn ein bod yn gwneud i ffwrdd â dirwyon ar lyfrau hwyr ar gyfer oedolion. Ein bwriad ydi annog pobl Gwynedd i wneud y mwyaf o'r holl stoc llyfrau, yn cynnwys ein casgliadau o lyfrau iechyd a hunan gymorth sydd ar gael yn ein llyfrgelloedd.

"Trwy gydol y cyfnod Covid, rydym wedi peidio codi ffioedd ar lyfrau sy'n cael eu dychwelyd yn hwyr. Rydan ni'n gwybod fod pobl wedi ei chael yn anodd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ac mae nifer fawr o bobl wedi gweld eisiau gallu mynd draw i'w llyfrgell leol yn ystod y cyfnodau clo.

"Y gwir ydi fod llawer o bobl yn gweld dirwyon fel rhwystr rhag gwneud y mwyaf o lyfrgelloedd. Ein gobaith ydi fod gwneud i ffwrdd a dirwyon yn llwyr yn ffordd i annog mwy o bobl i ddefnyddio'u llyfrgell heb ofni y byddant yn cael eu cosbi os ydynt yn dychwelyd eu llyfrau ychydig ddyddiau yn hwyr.

"Mae llyfrgelloedd yn adnoddau amhrisiadwy i bawb yn y gymuned, ac rydym am gael gwared ar unrhyw rwystrau a allai atal pobl rhag gwneud defnydd llawn ohonynt."

Mae Gweriniaeth Iwerddon wedi atal dirwyon yn llwyr ers Ionawr 2019, ac mae o leiaf 15 Awdurdod Llyfrgell ym Mhrydain wedi atal dirwyon o fewn y blynyddoedd diwethaf. Bydd Gwynedd ymhlith yr ychydig Awdurdodau Llyfrgell yng Nghymru i wneud i ffwrdd â dirwyon.

Bydd unrhyw ddirwyon presennol ar gyfrifon defnyddwyr llyfrgelloedd Gwynedd bellach yn cael eu dileu, gan roi llechen lan i bawb ymweld â'u llyfrgell pan fydd trefniadau presennol o adnewyddu




awtomatig wedi dod i ben, a'r cyfnod benthyg penodol yn cael ei adfer.

Fodd bynnag, mae'r Gwasanaeth Llyfrgell yn pwysleisio bod angen i ddefnyddwyr eu cynorthwyo drwy ddychwelyd eu llyfrau o fewn amser rhesymol. Er na fydd dirwy dan y drefn newydd, bydd disgwyl i ddefnyddwyr ddychwelyd llyfrau o fewn 12 wythnos i'r dyddiad dychwelyd cyn cael nodyn yn gofyn iddynt ddychwelyd eu llyfr, neu dalu amdano.

Gall unrhyw un gadw golwg ar eu cyfrif llyfrgell trwy ymweld a www.gwynedd.llyw.cymru/catalogllyfrgell a mewngofnodi gyda'u rhif cerdyn aelodaeth a'u PIN.



# C.L. JONES

Masnachwyr Coed a Nwyddau Adeiladu



Bethesda 01248 600045
Caernarfon 01286 676070
Llangefni 01248 751677

Cludiant am ddim yn lleol
Stoc helaeth ac amrywiol
Staff cyfeillgar a phroffesiynol
Popeth ar gyfer y diwydiant a D.I.Y

Mynytho 01758 730768
Llanrwst 01492 640794
Caergybi 01407 728728

Mae Arddangosfa Ceginau ac Ystafelloedd Ymolchi yn ein cangen yn Llangefni a Llanrwst

# Partneriaeth Ogwen

DAUCANMLWYDDIANT BETHESDA BICENTENARY

## Daucanmlwyddiant Bethesda

**Gweithdy celf i blant**
Cynhaliwyd gweithdy crefftio ar-lein i blant gan Elen o Siop Ogwen yn ystod mis Mawrth. Cafodd y plant gyfle i grefftio dyluniad arbennig ar ddarn o glai, wedi'i ysbrydoli gan Stryd Fawr Bethesda a hen batrymau llechi cerfiedig yr ardal. Diolch i Elen am ei holl gwaith paratoi, ac am ddiddannu'r plant!

**Helfa Siocled**
Ar ddydd Sadwrn, Ebrill 10fed, cynhaliwyd helfa siocled i deuluoedd ym Mharc Meurig yn seiliedig ar thema Daucanmlwyddiant Bethesda. Roedd angen casglu'r gwahanol gliwiau a ffeithiau oedd wedi eu cuddio o gwmpas y goedwig er mwyn datrys y gair cudd. Roedd bariau siocled, wedi'u creu yn arbennig gan Lois (Cypcêcs Lois) i'w rhannu ar ddiwedd yr helfa. Diolch i bawb am wneud y diwrnod yn un hwyliog a llwyddiannus.

**Darlithoedd Daucanmlwyddiant**
Yng nghanol mis Ebrill, cafwyd dwy noson eithriadol o ddiddorol yn trafod treftadaeth, diwylliant a diwydiant Dyffryn Ogwen. Bu John Llywelyn a Lowri Williams yn trafod gwreiddiau yr ardal ar y nos Wener, ac yn olrhain datblygiadau'r ddwy ganrif diwethaf yn hanes Bethesda. Ar y nos Sadwrn, cafwyd darlith gan Dafydd Roberts, cyn-geidwad yr Amgueddfa Llechi, ar destun 'Llechi'r Byd' ymhle tynnodd Dafydd ein sylw at arloesedd Bethesda a Chwarel y Penrhyn yn niwydiant llechi'r byd.

Gellir gwylio'r darlithoedd eto ar dudalennau *Youtube* a *Facebook* Daucanmlwyddiant Bethesda.

**Gweithdai cerfio llechi**
Efallai eich bod yn ymwybodol o'r gwaith cerfio llechi sydd ar y wal y tu ôl i'r biwglwr yn Llys Dafydd ers rhai blynyddoedd bellach. Mae'r gwaith yn seiliedig ar draddodiad llechi cerfiedig Dyffryn Ogwen sy'n ymestyn ymhell yn ôl i'r 19eg Ganrif. Gyda'r gwaith presennol o adfywio gardd gymunedol Tan Twr (sydd wedi'i lleoli uwchlaw'r Stryd Fawr, o dan y murlun newydd) penderfynwyd bod cyfle i gomisiynu darn o waith celf cymunedol yn seiliedig ar grefft y llechi cerfiedig. Bu Ann Catrin Evans, Siân Owen a Dave Stephens yn cynnal chwe sesiwn at ddiben y celfwaith gymunedol newydd. Mae'r gwaith crefftio eisoes wedi dod i ben a bydd digwyddiad yn cael ei drefnu er mwyn datgelu y celfwaith yn ystod yr wythnosau nesaf.

**Bethesda: Ddoe a Heddiw**
Mae'r prosiect uchod, o dan oruchwyliaeth Clwb Camera Dyffryn Ogwen, wedi bod ar waith ers rhai misoedd bellach. Diolch o galon i swyddogion y Clwb Camera ac i bawb arall sydd wedi cyfrannu at y prosiect. Cafodd rhai o'r lluniau eu cynnwys mewn arddangosiad trawiadol yng ngardd Tan Twr yn ystod mis Ebrill. Mae'r lluniau arbennig wedi cael eu rhannu o Fethesda'r gorffennol a'r presennol ar gael i'w pori ar wefan ogwen.cymru. Bydd arddangosfeydd cymunedol o'r lluniau yn cael eu datblygu ar draws Dyffryn Ogwen yn ystod yr wythnosau nesaf.



**Y crefftwyr yn brysur wrth eu gwaith yn Llys Dafydd**




**Yr arddangosfa drawiadol yng ngardd Gardd Tan Twr**

CHRIS GRIFFITHS CYF
Trwsio ffenestri upvc, drysau, cloeau, bachau, twll llythyrau ac unedau gwydr wedi chwythu

18 Carreg Felin
Llandegfan
Ynys Môn
LL59 5YB
☎ 01248 713 369 neu 07813 455653

Gareth Williams
Trefnydd Angladdau
Crud yr Awel
1 Ffordd Garneddwen
Bethesda
600763 neu 07708 008051
GWASANAETH DYDD A NOS

DAFYDD CADWALADR
Cynhyrchion Coedlannol
Coed Tân - Llwythi bach a mawr
Ysglodion pren i'r ardd
Ffensio a thorri coed
Asiant system gwresogi trwy losgi coed
01248 605207

# CHWILAIR



CHWILAIR MEHEFIN

## LLEFYDD YNG NGHYMRU

| | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| T | R | A | E | T | H | C | O | C | H | I | Y | H | U | W | K | N | H | S | I |
| L | L | Z | R | J | P | S | P | O | N | T | S | E | N | N | I | M | E | I | K |
| M | J | M | HJ | B | E | Z | O | L | X | V | P | K | H | V | P | H | Q | W | G |
| Q | B | M | A | T | V | S | W | F | Z | R | S | G | X | G | M | J | V | P | A |
| K | F | M | G | A | T | A | N | Y | G | R | I | S | I | A | U | N | G | O | P |
| I | O | T | L | L | S | I | E | Y | D | L | S | O | O | N | T | X | O | P | V |
| L | A | Y | A | Y | A | N | T | X | G | D | S | Q | Y | U | B | C | J | W | F |
| YU | P | Z | N | S | U | F | K | A | A | P | Y | U | M | N | T | Y | H | E | D |
| Z | D | I | E | A | K | F | M | C | J | H | R | N | H | B | H | V | G | J | P |
| B | G | K | B | R | T | A | K | A | S | N | O | L | N | S | A | C | G | N | U |
| Q | G | V | M | N | L | G | B | R | R | L | I | I | G | E | P | J | C | W | P |
| V | A | R | R | W | J | A | V | U | X | C | S | G | W | N | H | T | U | L | K |
| E | X | M | D | Y | Q | N | P | C | L | A | N | S | D | E | F | G | C | J | Q |
| R | H | O | S | G | O | C | H | L | O | H | I | S | K | C | D | S | N | Z | F |
| U | L | S | Z | L | A | T | C | P | P | X | A | P | U | I | Q | S | W | E | H |
| G | L | L | A | N | D | U | D | O | C | H | S | B | J | A | I | X | Y | E | S |
| B | W | J | E | G | M | X | K | D | D | Q | H | K | O | W | V | E | T | N | T |
| R | E | J | H | Y | K | F | G | U | W | C | H | M | Y | N | Y | D | D | A | Y |
| W | V | A | E | N | H | Q | O | O | M | U | E | S | G | E | W | X | C | G | X |
| R | D | K | L | L | U | X | K | X | O | A | W | P | K | Y | X | P | Q | K | D |

Yn y chwilair y mis yma mae ENW DEUDDEG LLE YNG NGHYMRU i'w darganfod. Mae un cliw wedi ei ddangos yn barod. A oes modd i chwi  ddod o hyd i'r gweddill? (Mae LL, CH, DD, TH, acyb yn un llythyren yn y Gymraeg, ond i bwrpas y chwilair dangosir hwynt fel dwy lythyren ar wahân).

NID OES ANGEN ANFON ATEBION AR GYFER Y CHWILAIR YMA, I'CH DIDDORI YN UNIG Y MAE.

Dyma atebion chwilair Mai:- Alfaromero; Astonmartin; Bentley; Jaguar; Landrover; Mercedesbenz; Mini; Peugeot; Renault; Rollsroyce; Vauxhall; Volkswagen.

# Nyth y Gân

**EIRA MAI**
Daeth yn gaenen ysblennydd – un noswaith
A'i naws yn ddirybudd;
Gwasgod o ryfeddod fydd
Am ennyd ar y mynydd.



**WALDO WILLIAMS**
Y gwâr yn adfer y gwyw – a'i galon
Yn galw'r ddynolryw
I ddod yn agos at Dduw
A'r hafan sydd mor hyfyw.

**YR HAF**
Hirddydd yn taenu harddwch, – ir fisoedd
Ar feysydd tynerwch;
Daw coelcerth hen brydferthwch
I dir hoen a blodau'n drwch.

**ATGOF**
Mae gwanwyn yn y llwyn a llaith yw'r pridd,
Ac egin mân yn agor yn y tes,
Gwawn yn edafedd ar ddraenen y ffridd
Ac adar yn nythu'n frwd yn y gwres;
Mae'r mynydd mwynaidd mewn ysblennydd liw
Yn estyn i'r nen fel cawr uwch y llyn,
A mawnog yn glasu'n ei maneg wiw
Dan heulwen yn ddisglair uwch ael y bryn;
Wrth feini cedyrn yn eu llymder llwyd
Mae'r derw nerthol draw wrth droed y glog,
A hiraeth am ddoe i'm calon a gwyd
O glywed deunod cwynfannus y gog.
Melys yw camu ar hyd lwybrau'r co'
A blasu atgofion am geinder bro.

**Goronwy Wyn Owen**

**GLAN Y MÔR**
Mae'r geiriau'n drai a llanw
O'u gosod hwy mewn cân;
Rhai'n mynd ymhell o'n cyrraedd
A'r lleill ond pethau mân.

Storïau sy'n y tonnau
Wrth iddynt fynd a dod,
A ninnau yno'n edrych
Gan roi i'r cread glod.

O glywed sŵn y tonnau
Yn taro ar y traeth,
Mae rhyddid yno iddynt
Ac eto maent yn gaeth.



**CARREG GOFFA WALDO**
Oer yw'r garreg a'r geiriau – a godwyd
Mor gadarn ag yntau,
Ond mae grym llam ei fflamau
Ar ei ôl eto'n parhau.

(Cyhoeddwyd yr englyn uchod yn y gyfrol *Blodeugerdd Waldo : Teyrnged y Beirdd*, Eirwyn George (gol.) ar achlysur hanner canmlwyddiant ei farw.)

**WALDO**
Am hau geiriau di-guro, – dyn hynod
O'n hanes oedd Waldo;
Yn ei ddydd gwir fardd oedd o,
Yn gyfaill gwerth ei gofio.

**YR ADFAIL**
Yn weddw ers blynyddoedd, – yn toddi
Mae'r tyddyn i'r ffriddoedd;
Yn dyrrau hyd ei diroedd,
Yno nawr nid yw'r un oedd.

**TÂN MEWN COEDWIG**
Hynod a fu'r difrodi, – a bregus
Ei brigau eleni;
A llesg ar ôl y llosgi
Yw'r coed mewn oed nawr i ni.


**GRUG Y MYNYDD**
Yn hafau ei gynefin, – a hwnnw
O dwf hen y priddyn;
O'i weld mae'n gyffredin
Yn ein gwadd â'i flodau gwin.

**Dafydd Morris**


**SIOP OGWEN**
yn cynnig gwasanaeth
**CLIC A CHASGLU**
Llawer o Nwyddau Newydd
gan Grefftwyr Newydd
wedi cyrraedd y siop

Hefyd
Llu o gardiau cyfarch
ar gyfer pob achlysur.
Cysylltwch â'r siop ar
yffôn **07394 905881**

neu E-bost siop@ogwen.org
i drafod beth sydd ar gael ac i
wneud trefniadau casglu a thalu
**CEFNOGWCH WASANAETH LLEOL**



**Llais Ogwan**
I hysbysebu yn
Llais Ogwan,
**Neville Hughes**
600853

**JAMIAU CARTRA'**
(Amrywiaeth ar gael)



Cysylltwch â gwefan
**CADWYN OGWEN**
neu Neville ac Angharad
(ffoniwch nhw ar 600853)
Elw at Elusennau


# CROESAIR

## AR DRAWS

1 Elizabeth fach yn ffansïo ceffyl mewn ras (3)
3 Moi, y digrifwr hurt, rhwng dau gant (5)
8 Mynd yn ôl i gysgu yn esmwyth, dyna a'i gwna yn hardd (7)
9 Mynd yn agosach (5)
10 Be wnaiff brenin i'r un oedd o'i flaen (5)
11 Cyfeilio y gân yn fedrus mewn eglwys i hanner olaf y cerddor swynol (7)
12 I'w pwyso, ond nid mewn boliau ! (7)
18 Pader dros hwn yw un o glasuron enwocaf Morfydd Llwyn Owen (7)
20 Y rhan orau o unrhyw beth, ac yn codi i'r wyneb (5)
21 Yn dilyn hynny (5)
22 Dan yn dychwelyd ar ôl ei geffyl yn yr arwerthiant (7)
23 Gan 'y defaid mân' i ddilladu'r 'oes o'r bla'n' *(cân werin)* (5)
24 Edrychiad hyll ar Gymdeithas Wfftio'r Gymraeg (3)

## I LAWR

1 Hwn enillodd y radd 'Byth Adra' ! (6)
2 Alys bropor yn sefyll fel soldiwr rhwng dechrau teimlo a diwedd rhywbeth (6)
3 Un o nofelau Cymraeg enwocaf yr 20fed ganrif *(IFfE)* (6,1,6)
4 Mae e'n mynd yn ôl yn gam i dwymo'i fysedd (5)
5 Gweithred dau gariad, ond nid fel Jiwdas (6)
6 Dweud sut ma'i fod (6)
7 Wyneb y gof bach tu draw i ddrws yr efail sy'n agored *(cân werin)* (5)
13 Andwyo a styrbio (6)
14 Cyffur o sudd y pabi (5)
15 Mwy na dim ond llai na gormod (6)
16 Mae'n llifo fel ffrwd o'i gafn rywsut (6)
17 O'r deg i un, mae pawb efo'i gilydd (6)
19 Swnio fel gŵr sy'n dod i'th gyrchu (5)



### ATEBION CROESAIR MAI 2021

**AR DRAWS** 1 Modfeddi, 5 Codwm, 8 Diwyg, 9 Iseldir, 10 Uchafbwynt, 12 Iôr, 13 Caboli, 14 Chwilog, 17 Fro, 18 Yn Ddyledus, 20 Unigryw, 21 Fenni, 23 Ronan, 24 Diswyddo

**I LAWR** 1 Medru, 2 Duw, 3 Esgobol, 4 Ieithydd, 5 Cwest, 6 Dideimlad, 7 Mwrddrwg, 11 Arbrofion, 13 Cefnu Ar, 15 Wylofus, 16 Addewid, 18 Ymron, 19 Seilo. 22 Nwy

Ni fyddwn yn ystyried y Croesair fel cystadleuaeth nes y daw diogelwch a threfn arferol yn ôl. Er lles a thegwch â phawb yn yr amser dyrys yma gofynnir i chi'n garedig ***i beidio*** ag anfon atebion fel arfer mewn e-bost na thrwy'r post na thrwy'r twll llythyrau. Diolch am eich cydweithrediad. Cynhwysir y Croesair uchod yn unig er mwyn i chi gael rhywbeth i'ch diddori mewn cyfnod mor ddiflas !! Cewch yr atebion yn rhifyn y mis nesaf. Hysbyswn chi pan fyddwn yn ailafael ynddi o ddifri unwaith eto.

STEPHEN JONES
TREFNWR
ANGLADDAU CYF

PEN Y BRYN BETHESDA
GWASANAETH PERSONOL
PEDAIR AWR AR HUGAIN
CAPEL GORFFWYS

BETHESDA • 01248 600455 • 07770265976
Ebost: stephenjonesfuneraldirectors@outlook.com

BYSUS
D. J. Owens
RHIWLAS

01248 361044 a 07771 634195



BYSUS O 25 I 57 SEDD AR GAEL AR GYFER
EICH HOLL ANGHENION TEITHIO -
TRIPIAU, PRIODASAU, PARTÏON AC ATI.

Bysus Gwyrdd Rhiwlas

GWASANAETH LLEOL, TRADDODIADOL A DIBYNADWY
SEFYDLWYD 1997 PERCHENNOG: DERFEL OWENS

# Mynydd Llandygai

**Ar y Teledu**

Braf oedd gweld Owein Prendergast, Bwthyn Gwelain, ar y rhaglen ‘Iaith ar Daith’ gyda’r actorion Joanna Scanlan a Mark Lewis-Jones. Roedd y cyfweliad wedi ei ffilmio yn hen dŷ ei rieni, Tan y Graig ger Deiniolen gan ei fod yn sôn am waith celf ei dad, y diweddar Pete Prendergast. Cafodd y ddau actor wers gelf gan Owein yn y Gymraeg. Gwych.

Gwych hefyd oedd gweld Nel Mai a Myfi Celyn, Cwm Hyfryd, ar y teledu ar raglen – ‘Etholiad 21: Taswn i’n Brif Weinidog’ hefyd yn siarad am eu pleidlais gyntaf. Roedd y ddwy yn sôn am hawliau pobl ifanc sydd ag anghenion megis Iaith Arwyddo – a pha mor bwysig yw codi ymwybyddiaeth ymysg eu cymuned ac yn ehangach.

**Celf**

Cofiwch hefyd fod STORIEL bellach wedi ail-agor gyda arddangosfa o waith Darren Hughes o ardal Dyffryn Ogwen. Mae’r arddangosfa ymlaen tan y 3ydd o Orffennaf felly os ym Mangor, cofiwch fynd draw.

Hefyd Oriel Ffin y Parc ble gwelir arddangosfa gan Iwan Gwyn Parry – artist o Sir Fôn ond bellach wedi ymgartrefu ym Methesda. Mae’r arddangosfa ymlaen tan y 19fed o Fai – felly cofiwch fynd draw i gefnogi.

**Cylch Meithrin Mynydd Llandygai**

Bu i’r Cylch Meithrin ffarwelio gydag Anti Catrin cyn hanner tymor. Mae Catrin wedi bod yn Arweinydd ar Gylch Meithrin Mynydd Llandygai ers rhai blynyddoedd a bydd ei hymadawiad yn golled fawr i blant ardal.

Mae Catrin wedi bod yn allweddol i lwyddiant a phoblogrwydd y Cylch ac fe hoffai’r Pwyllgor ei diolch am lywio’r Cylch drwy’r broses o sefydlu fel elusen, ail-gofrestru, a gweithredu drwy gyfnod pandemig yn ogystal â darparu amgylchedd ddysgu anhygoel ac arwain tîm gwych ar gyfer ein plant.

Mae datblygiad y gofod dysgu allanol, y fainc weithio a’r holl feddwl a chynllunio sydd yn mynd i drefnu’r holl weithgareddau a phrofiadau gwych i’n plant yn golygu eu bod yn cael y dechrau gorau mewn addysg o dan ofal ac arweiniad Catrin.

Byddwn yn ei cholli yn arw yn y Cylch ond yn dymuno pob hwyl iddi yn ei swydd newydd.

Hwyl fawr Anti Catrin, gan deulu Cylch Meithrin Mynydd Llandygai!!



**Anti Catrin**



# Datblygiad Tai Cae Rhosydd

## - galw ar Gyngor Gwynedd i gywiro sefyllfa warthus

Mae Cyngor Cymuned Llanllechid a Menter Iaith Dyffryn Ogwen yn anfodlon iawn ac yn bryderus am y modd y mae Adran Gynllunio Cyngor Gwynedd a'r gymdeithas dai, Adra, wedi gweithredu wrth newid natur a bwriad y cais cynllunio ar gyfer Cae Rhosydd, Rachub.

Mae'r ddau gorff wedi gwneud llanast' difrifol mewn perthynas â'r datblygiad tai a fwriedir ar gyfer Cae Rhosydd, Rachub. O ganlyniad i gamweinyddu dybryd, ni fydd tai marchnad agored o gwbl yn y datblygiad, a bydd pobl Talybont yn cael blaenoriaeth dros bobl Rachub efo'r tai cymdeithasol. Yn naturiol, mae hyn wedi cythruddo trigolion Rachub a'r cyffiniau.

Y bwriad gwreiddiol gan gymdeithas dai Adra oedd codi 30 o dai i ddiwallu anghenion lleol, sef 15 o dai marchnad agored a 15 o dai cymdeithasol. Cafodd ymgynghoriad cyhoeddus ei gynnal cyn i Adra gyflwyno cais cynllunio i Gyngor Gwynedd. At ei gilydd, roedd cefnogaeth i'r datblygiad oherwydd y byddai cyfle i bobl leol fedru rhentu tŷ neu brynu tŷ am bris o fewn eu cyrraedd. Cafodd y cais ganiatâd cynllunio yn gynnar yn 2020.

Ar ddechrau 2020, darparwyd y wybodaeth ganlynol gan adra am anghenion tai yn lleol i gefnogi'r cais gwreiddiol am 15 o dai rhent cymdeithasol a 15 o dai i'w gwerthu ar y farchnad agored:

- O fewn ward Rachub yn bresennol mae 103 o bobl ar Restr Tim Opsiynau Tai'r Cyngor mewn angen am unedau 1 i 5 llofft gan gynnwys 8% angen byngalo 2 lofft; 9% angen fflat 1 llofft; 11% angen fflat 2 lofft; 19% angen ty 2 lofft a 14% angen ty 3 llofft.
- Mae'r ffigyrau uchod ar y Rhestr Tim Opsiynau yn cynyddu'n sylweddol pe bai wardiau cyfagos yn cael eu hystyried sy'n cynnwys Llanllechid, Ogwen, Tregarth, Gerlan a Bethesda ble mae 258 angen ty 1 llofft, 355 angen ty 2 lofft, 180 angen ty 3 llofft, 56 angen ty 4 llofft a 3 angen ty 5 llofft.

Fodd bynnag, daeth yn amlwg bod cymdeithas dai Adra wedi derbyn caniatâd yn ystod Rhagfyr 2020 i newid natur y datblygiad ar safle Cae Rhosydd o'r hyn a dderbyniodd ganiatâd cynllunio yn wreiddiol. Erbyn hyn, y bwriad yw datblygu 30 o dai cymdeithasol ar rent cyffredinol neu canolraddol yn unig ar y safle sy'n golygu na fydd darpariaeth tai marchnad agored i'w gwerthu yn cael ei chynnig i gyfarfod y galw'n lleol. Ar ben hynny, bydd pobl Talybont yn cael blaenoriaeth dros bobl Rachub am y tai cymdeithasol gan fod Rachub o fewn terfynau Cyngor Cymuned Bethesda. Mae Cae Rhosydd o fewn terfynau Cyngor Cymuned Llanllechid, ac yn ôl trefn fandio y cyngor sir, rhoddir blaenoriaeth i ymgeiswyr sydd â chysylltiad ag ardal y cyngor cymuned.

Erbyn hyn, mae Cyngor Cymuned Llanllechid a Menter Iaith Dyffryn Ogwen wedi herio'r broses a ddilynwyd gan Adran Gynllunio Cyngor Gwynedd i ganiatáu newidiadau sylfaenol a sylweddol I'r cynllun datblygu – newidiadau sylweddol i natur a niferoedd categorïau'r tai, ac felly ym mwriad a phwrpas y datblygiad arfaethedig o ran diwallu anghenion y gymuned leol. Mae'r newidiadau wedi eu caniatáu heb ddarparu cyfle i ymgynghori gyda'r gymuned leol ar y newidiadau i'r cynllun gwreiddiol yr ymgynghorwyd arno yn ystod haf 2019 i ddarparu 15 o dai rhent cymdeithasol a 15 o dai marchnad agored ar gyfer pobl leol am bris o fewn eu cyrraedd.

Mae'r broses a ddilynwyd wrth ymdrin â'r cais cynllunio hwn yn dangos yn gwbl glir nad yw Cyngor Gwynedd na chymdeithas dai Adra yn cymryd unrhyw sylw o'r sylwadau a gyflwynir gan y gymuned a'r rhanddeiliaid allweddol yn lleol wrth gyflwyno cais cynllunio gerbron y Pwyllgor Cynllunio sirol.

O ganlyniad i'r camweinyddu sydd wedi digwydd wrth ymdrin â'r cais cynllunio hwn yng Nghae Rhosydd, Rachub, galwn ar Gyngor Gwynedd ac Adra i ddatrys y sefyllfa mor fuan ag sy'n bosib yn unol â dymuniad y cynghorau cymuned a'r gymuned leol, ac maen nhw wedi derbyn llythyrau yn galw am hynny.


Gobeithio'n fawr y bydd swyddogion y ddau gorff yn datrys y sefyllfa gwbl annerbyniol hon fel bod barn y cyhoedd yn cael ei pharchu. Os mai bwriad y datblygiad tai ydi gwasanaethu'r ardal drwy ddiwallu anghenion tai pobl leol, yna dyletswydd y cyngor sir ac Adra ydi mynd ati'n syth i drefnu –

1. Bod y cynllun gwreiddiol yn cael ei ddatblygu, sef 15 tŷ marchnad agored a 15 tŷ cymdeithasol ar gyfer pobl leol
2. Bod pobl sydd â chysylltiad â Rachub yn cael blaenoriaeth fel ymgeiswyr am y tai cymdeithasol, fel yr addawyd gan Adra ar y cychwyn.
3. Bod y tai marchnad agored ar gyfer pobl leol am bris o fewn eu cyrraedd, fel yr addawyd gan Adra.

*Cyngor Cymuned Llanllechid a Menter Iaith Dyffryn Ogwen*

SIÂNGWENLLIAN
AELOD O SENEDD CYMRU DROS ARFON

CYSYLLTWCH:
01286 672076
70 Stryd Fawr, Bangor
sian.gwenllian@senedd.cymru
YMA I BOBOL DYFFRYN OGWEN AC ARFON

HYWELWILLIAMS
AELOD SENEDDOL DROS ARFON

CYSYLLTWCH:
01286 672076
70 Stryd Fawr, Bangor
hywel.williams.mp@parliament.uk
YMA I BOBOL DYFFRYN OGWEN AC ARFON

# Etifeddiaeth Ardal y Carneddau

A fraid dweud bod tirwedd y Carneddau wedi cyfrannu i ffurfio cymeriad y gymdeithas sydd wedi byw yn y rhan hon o Eryri drwy'r canrifoedd. Mae olion o Oes Newydd y Cerrig, yr Oes Efydd a'r Oes Haearn yn tystio i ddilyniant di-dor y cymunedau fu â chysylltiad arbennig â'r mynydd-dir yma – ei lynnoedd a'i afonydd, ei greigiau a'i adnoddau crai, ei lystyfiant a'i fywyd gwyllt. Dyma ran helaethaf hen gantref Arllechwedd brenhinoedd a thywysogion Gwynedd a Chymru. Y mynydd-dir fu'n fodd i gynnal cymdeithas yn y parthau hyn drwy'r oesoedd. Bu'n rhan hanfodol ac annatod o fywyd cymdeithas y ffermwyr o gyfnod cynnar iawn cyn dod y chwarelwyr llechfaen, ithfaen a cherrig sets, a'r mwynwyr a fu'n cloddio am gopr, brwmstan ac arsenig, am blwm, ocar a cherrig-hogi, ac am fanganîs, maen-crisiant a maen-gwyn. Bu hefyd yn y rhannau o'r mynydd-dir uwchlaw Dyffryn Conwy weithwyr yn troi llynnoedd yn gronfeydd drwy godi argaeau a gosod pibellau. Bu traddodiadau ac arferion hamdden y gymdeithas yn un â'r mynydd-dir – y masnachu rhwng plwyfi, y pysgota, boed droi'r afon neu enweirio, yr hel poethwal a hel llus, yr ymgynnull teuluol i ymlacio yr ochr uchaf i giât y mynydd, y plant yn nofio ym mhyllau'r afon, y crwydro i sylwi ar fyd natur, a'r cerdded i'r copaon i fwynhau'r golygfeydd. Oherwydd y berthynas gynhaliol hen hon, meithrinwyd yn nhrigolion y bröydd yma dros genedlaethau lawer barch neilltuol tuag at y dirwedd. Ac mae'r cysylltiad hanfodol yma, y berthynas hanesyddol ddofn yma, yn parhau mewn sawl agwedd.


Y Bera Mawr

Ia, yn y mynydd yr oedd y gymdeithas wreiddiol ac yno yr oedd yr hen aneddiadau a'r caeau bychain cynnar, a bryn-gaearau'r Brythoniaid, ac yna'r eglwysi cynharaf – llannau'r seintiau – a'r hafotai canoloesol o Foty Lowri Galed i Hafod-y-gors-wen, a'r cadw gwartheg yn fuchesi ar y ffriddoedd uchel hyd at gadw defaid yn ddiweddarach, yn ddiadelloedd mewn cynefinoedd cyn uched â'r copaon. Perthyn i'r mynydd hefyd y mae arferion fel torri mawn, llosgi eithin a chadw merlod. Does ryfedd ein bod ni'n gysurus yn y mynydd. Fedrwch chi ddim teimlo'n unig yno hyd yn oed ar eich pen eich hun. Mae yno unigedd, oes, ond nid unigrwydd.

I'r rhai ohonom ni a anwyd ac a fagwyd yn ardal y Carneddau, y mynydd-dir oedd ac ydy ein libart ni. Ac mae libart yn enw priodol ar y mynydd-dir – y tir rhydd wrth law. Ac i ni'n llafnau ifanc, roedd yn ardd gefn anferth; yn ddarn daear agored, helaeth yn ymestyn o'r Gerlan i Lanbedr y Cennin; o afon Ogwen hyd at afon Conwy. Ardal y mynyddoedd a'r cymoedd, o Ben yr Ole Wen i Dal y Fan, o Gwm Eigiau i Gwm yr Afon Goch. Ardal y llynnoedd hefyd, o Lyn Anafon i Lyn Ogwen, o Lyn Coch i Lyn Geirionnydd – y llynnoedd a ysbrydolodd Gwilym Cowlyd i lunio'i englyn adnabyddus am eu dŵr yn adlewyrchu'r mynyddoedd ar hafddydd clir:

Y llynnau gwyrddion llonydd – a gysgant
Mewn gwasgod o fynydd;
A thyn heulwen ysblennydd
Ar len y dŵr lun y dydd.

**Parhau ar dudalen 24**


Melynllyn

**Parhad ar dudalen 23**

Mae'r Carneddau wedi bod nid yn unig yn bresenoldeb corfforol amlwg i gymunedau'r llefydd hyn ers canrifoedd lawer, ond hefyd yn rhan o'u diwylliant nhw. Mae'r berthynas allanol a thufewnol rhyngom a'n cynefin yn brofiad cyffredin, yn wirionedd cyffredinol. Fel y dywedodd y diweddar V.S. Naipaul, y llenor o Drinidad, un a ddisgrifiodd dirwedd sawl gwlad ar sawl cyfandir yn ei gyfrolau, ond a roddai bwys neilltuol ar arwyddocâd bro'i fagwraeth. "Nid oes tirwedd fel tirwedd ein plentyndod", meddai. Mae hyn yn ymddangos yn wirionedd hunan-amlwg, ond dweud y mae o fod tirwedd plentyndod – daear ein cynefin cyntaf – yn golygu llawer iawn mwy na thirlun ac amgylchedd. Mae'n rhan o'r hyn ydym ni bob un – yn rhan annatod o'n hunaniaeth ni.

Rhannau o un gwead ydy cymdeithas a'i thirwedd. Cydymdreiddiad iaith a thir. Bywyd cymdeithas yn ymwneud pobl â'i gilydd a'i hymwneud â'i hamgylchedd ydy diwylliant, ac mae dehongli daear ei lleoliad – ei gofod – yn rhan o hynny. Cwbl ddiystyr ydy craig, a phridd a llystyfiant heb lygad a meddwl a chalon i roi ystyr a gwerth ac arwyddocâd iddyn nhw. A'n diwylliant ni, a chof y diwylliant a'i gyfundrefn werthoedd, sy'n rhoi i'n cynefin ni ystyr. Mae'n rhoi inni wreiddiau ac mae'n meithrin ynom ni barch a chyfrifoldeb at nodweddion ein cymuned a'i hamgylchedd naturiol.

Rhan ganolog yn yr etifeddiaeth ddiwylliannol ydy ein llenyddiaeth ni. Bu'r beirdd a'r llenorion yn defnyddio'r iaith yn greadigol i ymateb i amgylchiadau eu cymdeithas o gyfnod i gyfnod, ac mae'r traddodiad llenyddol hirfaith hwn yn tystio bod bywyd wedi ei fyw yn y lle yma, ar y tir hwn, trwy'r Gymraeg yn ddi-dor ers mil a hanner o flynyddoedd, ac yn ddi-dor drwy'r Frythoneg, mam y Gymraeg, am fil o flynyddoedd cyn hynny. Dyma drysor rhyfeddol i ymfalchïo ynddo. Bu llenyddiaeth, a barddoniaeth yn arbennig felly oherwydd y dull mynegiant cynnil a chofiadwy, yn gyfrwng gyda'r mwyaf effeithiol i fynegi brogarwch ac ymlyniad emosiynol wrth ardal, a chafwyd enghreifftiau gloyw o hynny. Ar dro, bydd rhannau o'r dirwedd ei hun yn wrthych y bardd neu'r llenor. Bryd arall, y gymuned ei hun gaiff y sylw, efo'r dirwedd yn gefndir dylanwadol, naill ai'n effeithio ar y digwydd neu'n creu awyrgylch. Fel y bardd-weinidog John T. Job, er enghraifft, yn mynegi ei deimladau wrth ymadael ag ardal y Carneddau yn y gerdd 'Ffarwél i Eryri', ac wrth gyfeirio at Gwm Pen Llafar sydd rhwng y ddwy Garnedd fawr eu hunain sy'n coffáu ein tywysogion, daliodd y bardd yn gryno mewn un pennill byr a syml ysbryd y berthynas rhwng yr unigolyn â'r mynydd-dir – pennill a aeth ar gof nifer dda o drigolion Dyffryn Ogwen.

Ffarwél i Gwm Pen Llafar
A'i heddwch diystŵr,
Lle nad oes lef ond ambell fref,
A Duw, a sŵn y dŵr.

Agwedd arall ar y dreftadaeth leol a chenedlaethol gyfoethog hon ydy ein henwau lleoedd – nodwedd benodol sy'n rhoi ystyr i'r mynydd-dir. Ia, gwaddol sydd bob amser yn ennyn balchder a diddordeb brwd yn ein plith ni ydy ein henwau lleoedd.

Do, fe'n breintiwyd ni â thirwedd amrywiol iawn ac mae'r enwau topograffig yn cyfrannu i'n dealltwriaeth ni o hanes y tir, hanes yr iaith a hanes y cymunedau – yn adlewyrchu natur y ddaeareg a ffurfiau'r dirwedd, y llystyfiant a'r creaduriaid, a bywyd yr hen gymdeithas. Ble caech chi enwau mwy swynol na'r rhain? Nant y Gilfach Felen a Braich y Llyngwm, Afon Gaseg a Ffrwd Eboles, Pant y Mynach a Chadair Ceridwen, Craig y Tri Marchog a Chwm y Bedol Arian, Bwlch y Ddeufaen a Bwlch y Clawdd Llwyd, Pen yr Helgi Du a Phen Llithrig y Wrach, yr Ysgolion Duon a'r Bryniau Melynion, Craig y Benglog a Chrib y Grimog Lem, Cefn Maen Amor a Chefn yr Orsedd, Castell y Geifr a Chlogwyn yr Eryr, Braich y Prysgyll a Phant y Griafolen. Enwau i'r parchu a'u cadw, yn sicr, ac mae llurgunio neu gyfieithu enwau lleoedd Cymraeg a'u disodli efo enwau Saesneg yn treisio'n hunaniaeth ni, a dylid eu diogelu drwy warchodaeth statudol.

Wrth ystyried treftadaeth ddiwylliannol ardal y Carneddau – a'r traddodiad gwiw sy'n parhau wyneb yn wyneb a bygythiadau o sawl cyfeiriad – ni allwn ond ymhyfrydu yng nghyfoeth yr hyn yr ydym ni wedi ei etifeddu. Mae Cynllun Tirwedd y Carneddau yn gyfle i ni ddiogelu ac atgyfnerthu'r bywyd Cymraeg, hyrwyddo'r warchodaeth o'r amgylchedd naturiol, a chyfoethogi ymhellach yr etifeddiaeth i'w throsglwyddo i genedlaethau'r dyfodol.

**Ieuan Wyn**

*Cyflwyniad yn lansiad Cynllun Partneriaeth Tirwedd y Carneddau, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.*



Ffynnon Llyffaint



Crimpiau

# Tregarth

**Olwen Hills (Anti Olwen)**, 48 Bro Syr Ifor, Tregarth (600192)
**Angharad Williams**, 23 Ffordd Tanrhiw, Tregarth (601544)
**Gwenda Davies**, Llanfairpwll (gwendaglyn@hotmail.com)

**Profedigaeth**

Bu farw Christine Davies, 9 Bro Syr Ifor, yn Ysbyty Gwynedd, ar Fai 11 a hithau yn 76 oed. Roedd yn wraig i'r diweddar Frank ac yn fam, nain a hen nain i'w wyrion. Bu ei hangladd ym Mynwent Coetmor ar Fai 20 a chydymdeimlwn fel ardal gyda'r teulu i gyd.

**Capel Shiloh**

Mae gwasanaethau yn Shiloh bob nos Sul am 5 o'r gloch a chroeso cynnes i unrhyw un droi i mewn i'r oedfa.

Dyma'r gwasanaethau am yr wythnosau nesa.

Mehefin 13 Ellie Jones, Coed y Parc
Mehefin 20 Philip Barnett, Swydd Efrog
Mehefin 27 Nerys Griffiths, Caernarfon
Gorffennaf 4 Dafydd Coetmor Williams, Llanllechid
Gorffennaf 11 Richard Gillion
Gorffennaf 18 Glyn Owen, Llanwnda
Gorffennaf 25 Jennie Hurd, Llanymynech

Ni fydd oedfaon yn Shiloh ym Mis Awst